

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR ARCHWILIO</b>	<b>AUDIT COMMITTEE</b>
<b>DYDD LLUN, 27 EBRILL 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn</b>	<b>MONDAY, 27 APRIL, 2015 at 2:00 p.m.</b>
<b>YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes (Cadeirydd/Chair), John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alun W Mummery

### **Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

*Sedd Wag/Vacant Seat*

### **Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones

## **ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION CYFARFOD 23 CHWEFROR, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2015.

### 3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2014-15** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol am 2014/15.

### 4 **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL - ADOLYGIAD A DIWEDDARIAD** (Tudalennau 17 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol Gweithredol.

### 5 **PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL - DIWEDDARIAD AC ADOLYGIAD** (Tudalennau 25 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol Gweithredol.

### 6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2014-5** (Tudalennau 39 - 54)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

### 7 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyno diweddariad Archwilio Allanol ar y Rhaglen Waith Perfformiad.

### 8 **ARCHWILIO ALLANOL - CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cyflwyno'r Cynllun Archwilio Blynyddol.  
(*Adroddiad i ddilyn*)

### 9 **ADRODDIAD ADOLYGIAD ARCHWILIO MEWNOL - DISEL ARFOROL**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol) ar gynnydd ar ymateb i'r adolygiad gan Archwilio Mewnol.  
(*Adroddiad i ddilyn*)

### 10 **ARGAELEDD GRANTIAU AC UCHAFU CYLLID** (Tudalennau 61 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

### 11 **RHEOLI RISG** (Tudalennau 73 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Risg ac Yswiriant.

**12** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 79 - 80)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.

**13** **CONTRACT GWASANAETH RHEOLI ARCHWILIO MEWNOL**

Derbyn diweddariad gan y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**14** **CYFARFOD NESAF SYDD WEDI'I DREFNU**

Dydd Llun, 27 Gorffennaf, 2015 am 2 o'r gloch y prynhawn.

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR ARCHWILIO

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2015

<b>PRESENNOL:</b>	Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Cadeirydd) Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)  Cynghorwyr Richard Owain Jones, Robert Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dafydd Thomas.  Aelod Lleyg: Mr Richard Barker
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr (o eitem 5.2) Dirprwy Brif Weithredwr Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro Rheolwr Archwilio Mewnol (JF) Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfrifo (BHO) Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Cynghorydd Jim Evans, Mrs Sharon Warnes (Aelod Lleyg)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Cynghorydd H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Mr Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Melanie Watson (Tîm Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Joe Hargreaves (PwC)

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio. Rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor parthed ymddiswyddiad y Cynghorydd Jeff Evans fel aelod o'r Pwyllgor a dywedodd hefyd bod y Cynghorydd Jim Evans yn absennol oherwydd ei fod wedi cael codwm yn ddiweddar. Ar ran y Pwyllgor Archwilio, dymunodd adferiad llwyr a buan i'r Cynghorydd Evans.

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr John Fidoe, Rheolwr Archwilio Mewnol ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Gan gyfeirio at eitem 3 ar y rhaglen, nodwyd bod nifer o'r Aelodau oedd yn bresennol â chyswllt a Chronfa Bensiynau Gwynedd fel aelodau o'r gronfa.

#### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2014 a 9 Chwefror 2015.

#### 3 CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Yn unol â chais a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2014, rhoddodd y Deilydd Portffolio Cyllid grynodedd i'r Pwyllgor o berfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2013/14.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cyllid, fel cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn ar Bwyllgor Cronfa bensiynau Gwynedd am y wybodaeth oedd yn yr adroddiad crynhoi'r Gronfa Bensiwn a'r cyfrifon am 2013/14 -

- Yn amodol ar eu harchwilio, roedd y crynodeb o'r Cyfrifon yn dangos bod cyfanswm yr incwm am y cyfnod yn £83.523m o'i gymharu â £78.525m yn y flwyddyn flaenorol gyda'r mwyafrif ohono yn gyfuniad o gyfraniadau cyflogwr (£50.909m yn 2013/14) a chyfraniadau gweithwyr (£14.791m yn 2013/14).
- Am 2013/14 cyfanswm y gwariant oedd £55.267m, gyda'r rhan fwyaf ohono yn cynnwys budd-daliadau pensiwn (£34.424m).

- Bod gwarged o £28.256m ar y Gronfa ar ddiwedd 2013/4 oedd ar gael i fuddsoddi. Mae hyn yn sylweddol o ystyried bod camargraff gyffredinol nad oes digon yn cael ei dalu i mewn i'r Gronfa ar ffurf cyfraniadau blynyddol.
- Roedd sefyllfa asedau net y Gronfa yn sefyll ar £1,310m ar 31 Mawrth 2014 yn cynrychioli cynnydd o £117m yn ystod y flwyddyn. Mae agwedd fuddsoddi'r Gronfa yn seiliedig ar leihau risg drwy fuddsoddi ar draws ystod o wahanol ddsbarthiadau ased e.e. ecwitiau, eiddo ac yn fwy diweddar, seilwaith.
- Dychweliad cyffredinol y gronfa am 2013/14 oedd 8.2% yn erbyn meincnod o 6.3%. Dros dair blynedd roedd dychweliad y Gronfa yn 6.7% yn erbyn meincnod o 6.5%.
- Yn ystod 2013/14, cwblhawyd prisiad actiwariol tair blynedd y Gronfa ar Mawrth 2013. Roedd y lefel gyllido wedi cynyddu o 84% i 85%, sydd o flaen y cyfartaledd o 79% yn Lloegr a Chymru. Fodd bynnag, roedd y diffyg yn y Gronfa hefyd wedi cynyddu oherwydd yn rhannol i'r ffaith bod pobl yn byw'n hŷn a lefel isel o incwm gilt ar amser y prisiad.
- O gymharu â chronfeydd awdurdodau lleol eraill, roedd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn 19<sup>fed</sup> allan o 85 o ran perfformiad buddsoddi sydd yn dangos perfformiad cadarn. Mae'n gronfa gadarn gydag ystod eang o fuddsoddiadau.

Rhodddwyd cyfle i'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r Deilydd Portffolio Cyllid ar y wybodaeth a gyflwynwyd ac fe nodwyd y materion a ganlyn –

- Ffioedd rheoli'r Gronfa o gymharu â chronfeydd eraill tebyg. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai treuliau rheoli'r buddsoddiad am 2013/14 oedd £7.316m a thaliadau gweinyddol yn £1.268m. Mae papur ymgynghori Llywodraeth ganolog wedi cynnig y dylai buddsoddiad ecwiti fod yn un tawel yn hytrach nag un bywiog er mwyn lleihau costau. Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd y safbwynt y dylai cronfeydd gael y dewis i gydymffurfio gyda'r cynnig neu egluro penderfyniad i ddilyn rheolaeth fywiog.
- Gofynnwyd a oedd y dychweliad ar Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cymharu'n ffafriol gyda Chronfa Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y ddwy gronfa yn wahanol o ran amcanion buddsoddi gyda Chronfa'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn cael ei buddsoddi'n bennaf i gynhyrchu incwm da tra bo'r Gronfa Bensiwn yn cael ei buddsoddi gyda golwg ar berfformiad tymor hir.
- A oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd y capasiti i barhau fel ag y mae pe ceid tanchwa arall ar y farchnad stoc. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Gronfa Bensiwn Gwynedd o ran ei natur yn destun newidiadau yn y farchnad ond bod ei strategaeth fuddsoddi'n ceisio lliniaru unrhyw risg drwy ddyrannu asedau ar draws ystod o gategoriâu. Hefyd, mae gan y Gronfa £26.148m mewn arian ac adneuoan banc.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd ar ddiwedd 2013/14 a nododd y byddai'n dymuno parhau i fonitro perfformiad y Gronfa Bensiwn yn flynyddol.

## **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

### **4 RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 3 2014/15**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro yng nghyswllt gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn y trydydd chwarter o 2014/15.

Cyfeiriodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) at yr ystyriaethau a ganlyn –

- Cyfraddau llog oedd yn cael eu rhagweld hyd fis Mawrth 2018 fel a ddarparwyd gan Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor oedd yn rhagweld symudiad araf a graddol at i fyny, tra'n amlygu'r ansicrwydd parhaol yn y marchnadoedd a'r anhawster i ragfynegi cyfraddau.
- Sefyllfa fenthycar Cyngor fel oedd i'w weld yn adran 3 a'r rhesymeg dros barhau i fewnoli benthyca ar hyn o bryd.
- Benthyca a buddsoddiadau ar ddechrau a diwedd y chwarter fel oedd i'w gweld yn adran 4 yr adroddiad a'r ffactorau oedd yn dylanwadu ar yr agwedd tuag at fuddsoddi.
- Cadarnhad bod y Cyngor yn parhau o fewn ei gyfyngiadau Pwyllgor a Thrysorlys yn ystod y chwarter.
- Cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn a thu hwnt gyda chyfeiriad arbennig at ymadawiad y Cyngor o'r system sybsidi CRT ar 2 Ebrill drwy bryniant allan wedi'i ariannu drwy'r PWLB ac y

mae'r manylion yn parhau mewn ymgynghoriad ond mae'r sefyllfa'n cael ei hadlewyrchu yn y papurau gosod y gyllideb a Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth heb unrhyw sylwadau pellach.

### **Penderfynwyd derbyn y diweddariad ar Reoli'r Trysorlys am Chwarter 3 2014/15.**

### **DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

## **5 ARCHWILIO ALLANOL**

5.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Mr Andy Bruce Swyddfa Archwilio Cymru ar gynnydd a statws eitemau o waith o dan y Rhaglen Waith Perfformiad fel a ganlyn -

- Roedd gwaith maes ar gyfer Asesiad Corfforaethol o'r Awdurdod ar droed ar hyn o bryd. Mae'r Asesiad Corfforaethol yn disodli'r Adroddiad Gwella Blyneddol yn 2015 a bydd yn cymryd i ystyriaeth Hunanasesiad yr Awdurdod ac adolygiadau lleol Swyddfa Archwilio Cymru ar reolaeth o adnoddau ariannol, llywodraethu ac effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd. Disgwylir y bydd adroddiad drafft yn cael ei ryddhau ym mis Ebrill gyda'r adroddiad terfynol i ddilyn ym mis Mehefin.
- Mae'r adroddiad cenedlaethol ar yr adolygiad Diogelu yn cael ei ddrafftio a disgwylir ei ryddhau ym Mawrth.
- Mae'r adroddiad cenedlaethol drafft parthed yr adolygiad Sefyllfa ariannol fydd yn rhoi darlun Cymru gyfan o ddyncwch ariannol yn mynd drwy'r broses glirio fewnol ar hyn o bryd. Mae'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad yn cael ei ystyried ar gyfer adolygiad dilyn-i-fyny yn 2016.
- Mae'r arolwg cyhoeddus o safbwynt Darparu gyda Llai - Astudiaethau Hamdden wedi cau ac mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi i'w bwydo i adroddiad cenedlaethol.
- Mae'r gwaith maes mewn perthynas â'r astudiaeth o weithio cydlynus i fynd i'r afael a'r galw o fewn iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas ag annibyniaeth pobl hŷn wedi'i gwblhau. Nid oedd yr Awdurdod ym Môn â chyswllt uniongyrchol yn yr astudiaeth hon a bydd yr allbwn ar ffurf crynodeb cenedlaethol byr o ganfyddiadau i'w rhyddhau ym Mawrth 2015.
- Roedd yr ymgynghoriad ar y saith opsiwn astudiaeth ar gyfer Cynllun Gwaith Perfformiad 2015/16 wedi cau a bydd y rhaglen waith ddiffiniedig yn cael ei dewis ar sail yr adborth a dderbyniwyd a'i gyhoeddi yn Ebrill 2015.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth heb unrhyw sylwadau pellach.

5.2 Cafwyd diweddariad ar lafar gan Mae Mr Joe Hargreaves PwC ar statws yr ardystiad o waith grantiau. Mae hawliadau grant yn cael eu hardystio yn unol â chyfres o amseroedd cau ac mae'r holl waith mewn perthynas â hawliadau am 2013/14 wedi'i gwblhau a'r holl grantiau wedi'u hardystio ar wahân i'r Grant Llwybr Dysgu. Ar gyfer y grantiau a ardystiwyd bydd y Cydlynedd Grantiau yn peri bod y llythyrau ardystio ar gael gyda rheini'n rhoi manylion o natur yr ardystiad. Mewn perthynas i amser cau mis Chwefror, mae gwaith ar ardystio grantiau WEFO (Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd Cymru a Grant Isadeiledd Strategol) yn parhau a disgwylir i'r grantiau hynny fod wedi eu hardystio erbyn diwedd y mis. Mae 18 o grantiau wedi eu hardystio a 6 ohonynt yn ddiatomod heb unrhyw newidiadau. Mae 7 yn ddiatomod gyda rhai newidiadau; roedd 2 angen eglurhad ar yr ardystiad archwilio ac roedd 3 yn amodol ac angen newidiadau ychwanegol i'r ffigurau terfynol.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth gan gydnabod y gwelliant o safbwynt y nifer o grantiau oedd wedi'u hardystio heb amod. Codwyd pwynt cyffredinol ynglŷn â'r hyn oedd i'w weld fel cronni grantiau mewn blyneddoddi diweddar, o Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill. Awgrymwyd a chafwyd cytundeb wedi hynny y byddai o fudd i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn rhestr o grantiau oedd ar gael er mwyn cael syniad o'r pictiwr ehangach o safbwynt cyllid grant a hefyd o ran sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud y mwyaf o gyfleon cyllid grant a all fod ar agor iddo.

Dyweddodd y Prif Weithredwr bod y rhan fwyaf o'r cyllid grant sydd ar gael i'r Awdurdod yn cael eu derbyn drwy Swyddfa'r Prif Weithredwr a bod y Prif Weithredwr ei hun yn edrych arnynt cyn eu hanfon ymlaen i gyfarwyddwyr y gwasanaethau perthnasol. Mae Swyddog Cyllid y Gwasanaeth hefyd yn cadw trosolwg o'r grantiau ar gyfer cydymffurfio â'r meini prawf cyllido. Ni wneir cais am

bob cynnig grant a dderbynnir a rhoddir ystyriaeth i'r ffaith a ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a hefyd a yw'r adnoddau a dreulir yn llunio cais i'w gyfiawnhau o ystyried bod y broses ymgeisio am nifer o'r grantiau yn un gystadleuol. Mae yna ystod eang o grantiau ar gael ac y mae gwasanaethau yn yr Awdurdod yn cael eu cynnal gan gyllid grant o dros £60 miliwn gyda hynny'n golygu bod goblygiadau os byddai'r cyllid hwnnw'n dod i ben. Gall amseriad unrhyw gadarnhad o gyllid grant hefyd gael dylanwad ar gynllunio gwasanaethau, neu oedi hynny.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dros Dro bod yna elfen o risg ynghlwm wrth y drefn cyllid grant yn yr ystyr bod cymaint o grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru ac UE, ac y gall dilyn y grantiau ddod yn amcan ynddo'i hun yn hytrach na darparu gwasanaeth i'r gymuned. O ystyried bod nifer o grantiau yn cael eu dyfarnu ar sail arian cyfatebol, gall gwasanaethau wario 50% mewn arian cyfatebol heb dalu sylw digonol i'r ffaith a allai'r cronfeydd hynny gael eu defnyddio'n well yn rhywle arall. Mae cyllid grant hefyd yn hyblyg iawn gyda grantiau newydd yn dod i'r amlwg wrth i'r grantiau cyfredol ddod i ben ac felly ni fydd unrhyw arolwg o'r grantiau sydd ar gael ond yn cael ciplun o'r sefyllfa ar unrhyw amser penodol

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa hyd yn hyn mewn perthynas ag ardystiad grantiau.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar grantiau sydd ar gael i'r Awdurdod a sut mae'r Awdurdod yn gwneud ei orau i sicrhau'r grantiau hyn sydd ar gael iddo.**

## **6 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol ar waith yr Adran Archwilio Mewnol o 1 Ebrill 2014 i 31 Rhagfyr 2014.

Amlygodd y Rheolwr Archwilio Mewnol yr ystyriaethau a ganlyn –

- Ni chafwyd unrhyw adolygiadau yn y cyfnod lle y cafwyd barn Sicrwydd Coch.
- Adolygiad dilyniadol o ddau adroddiad barn coch oedd wedi'i adrodd yn flaenorol - Rheolaethau Mynediad Rhesymegol a Rhaniad Dyletswyddau a Chynllun y Trydydd Sector - fe'i gwnaed ac yn achos y cyntaf daethpwyd i'r farn nad oedd y rheolwyr ond wedi dangos ychydig iawn o gynnydd yn gweithredu'r camau a gytunwyd i roi sylw iddynt yn yr argymhellion archwilio ac o fewn yr amseroedd y cytunwyd yn wreiddiol er ei fod yn cael ei gydnabod bod nifer o'r eitemau hyn wedi eu cysylltu i'r ymateb i adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth ac y gallent gymryd peth amser i'w cyflawni. Yn achos y Cynllun Trydydd Sector, canfu'r adolygiad dilyn-i-fyny bod cynnydd da yn cael ei wneud yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad IA gwreiddiol.
- Canlyniad Archwiliad o Ddigartrefedd a wnaed fel rhan o'r cynllun cyfnodol archwilio mewnol a gytunwyd ar gyfer 2013/14 oedd barn Coch / Ambr gyffredinol ac felly hefyd archwiliad o Gyflogres yr Athrawon oedd hefyd wedi nodi gwendidau o ran rheolaeth nad oedd wedi cael sylw o adolygiadau rheolaethau allweddol blynyddol y gyflogres o 2012/13 a 2013/14. Bydd y ddau faes yn destun adolygiadau dilyn-i-fyny a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.
- Adolygiad ymgynghorol o'r trefniadau ar gyfer gwerthu, bilio a thalu am diesel arforol oedd hefyd wedi nodi nifer o wendidau rheolaethol.
- Hyd yn hyn, mae 27 o adroddiadau terfynol wedi eu rhyddhau o Gynllun Gweithredol Mewnol 2014/15, 74% wedi cael barn sicrwydd cadarnhaol (Gwyrdd neu Gwyrdd / Ambr) a 26% mewn barn negyddol (Coch neu Goch / Ambr).
- Fe wnaed y Pwyllgor yn ymwybodol yn flaenorol o ymdrech Credydwr i dwyllo'r Cyngor ac eraill. Ar 25 Ionawr 2015 derbyniodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ymateb e-bost gan yr Heddlu yn cadarnhau, yn unol â pholisi ymchwilio a dyrannu Twyll Heddlu Gorllewin Canoldir Lloegr, na fydd unrhyw ymchwiliad pellach yn digwydd y tro hwn.
- Yng nghyswllt tracio argymhellion, roedd y gyfradd weithredu ar 14 Ionawr 2015 yn 61% o argymhellion Uchel a Chanolig. Roedd y perfformiad mewn perthynas ag argymhellion ar wahân i rhai o fewn Addysg yn 79%. Rhoddwyd dadansoddiad o argymhellion archwilio oedd ar ôl yn Atodiad B yr adroddiad.
- Mewn perthynas â phryderon archwilio oedd yn parhau, y sefyllfa ar hyn o bryd ynglŷn â'r meysydd a nodwyd fel rhai felly oedd y rhai oedd i'w gweld yn adran 6 o'r adroddiad. Bydd y meysydd hyn yn parhau i fod o bryder i Archwilio Mewnol hyd nes y bydd yr holl argymhellion



arwyddocaol wedi'u gweithredu ac y gellir rhoi sicrwydd bod y fframweithiau a'r systemau yn eu lle, a'u bod wedi eu hymwreiddio a'u bod yn gadarn ac yn effeithiol.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a nodwyd y materion a ganlyn –

- Bod eglurhad wedi ei roi fel lliniariad mewn perthynas â'r oedi gyda gweithredu argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi iddo adolygu'r Rheolaethau Mynediad Rhesymegol a'r trefniadau ar gyfer Gwahanu Dyletswyddau. Eglurodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 dros dro ymhellach fod diffyg adnoddau wedi bod yn bryder yn y Gwasanaeth TG gan olygu bod cynnydd gyda'r materion hyn wedi bod yn arafach na phe bai'r gan y gwasanaeth yr adnoddau'n llawn. Cadarnhaodd y Swyddog bod Pennaeth Gwasanaeth TG newydd wedi ei benodi ac y bydd yn rhoi sylw i'r argymhellion archwilio. Nododd a derbyniodd y Pwyllgor eglurhad y Swyddog.
- Bod yr adroddiad yn amlygu materion mewn perthynas â'r rheolaethau mewnol a'r angen i'w cryfhau mewn sawl maes, yn ogystal â nifer o faterion llywodraethiant cyffredinol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau, sef cydymffurfiaeth â pholisïau, eu dyblygu, eu hanwybyddu a/neu ddiffyg ymwybyddiaeth ohonynt. Roedd y rhain yn faterion a nodwyd gan y Pwyllgor fel themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro ac a oedd, yn ei farn ef, yn gysylltiedig ag arferion gwael o ran materion cadw tŷ ac y gellid disgwyl y byddai Rheolwyr yn eu cyflawni fel swyddogaeth graidd.
- Fel rhan o'i friff i fonitro ymatebolrwydd Rheolwyr i gasgliadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i argymhellion, ac yn wyneb y meysydd sy'n parhau i achosi pryder i'r archwilwyr yn rhan 6 lle nodwyd bod y cynnydd ar y cyfan yn araf, ynghyd â'r gyfradd anfoddfaol, ym marn y Pwyllgor, o argymhellion lefel uchel a chanolig a oedd yn cael eu gweithredu, sef 61%, ystyriodd y Pwyllgor p'un a oedd yn amser iddo bellach ymarfer ei hawl i ddal rheolwyr yn uniongyrchol atebol am ddiffyg cydymffurfiaeth a diffyg gweithredu.
- Ystyriodd a chytunodd y Pwyllgor, fel arwydd o'i fwriad i gymryd agwedd gadarnach tuag at weithredu ac i gael sicrwydd bod canlyniadau adolygiadau archwilio mewnol yn cael sylw priodol, y byddai, yn y lle cyntaf, yn ceisio edrych ar y materion a godwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer gwerthu, bilio a thalu am ddiesel arforol. I'r perwyl hwnnw, cytunwyd gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol roi cyfrif am sut roedd y sefyllfa wedi codi ac i esbonio'n uniongyrchol i'r Pwyllgor pa gamau cywiro a gymerir i roi ar waith yr argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Mewn perthynas â chyfeiriadau, roedd y Pwyllgor yn siomedig gyda'r penderfyniad gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr i beidio â bwrw ymlaen i ymchwilio i'r ymgais i dwyllo'r Cyngor ac eraill mewn perthynas â materion credydwyr. Roedd y Pwyllgor yn credu y gallai'r twyll, pe bai wedi llwyddo, fod wedi bod â goblygiadau difrifol o ran y posibilrwydd o golli arian cyhoeddus.

Yn ei hymateb i bryderon y Pwyllgor ynghylch y diffyg cynnydd mewn meysydd sy'n parhau i achosi pryder i'r archwilwyr, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod adroddiadau adolygu gan y Gwasanaeth Archwilio mewnol bellach ar gael i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a bod hynny'n sicrhau eu bod yn cael gwybod mewn dull amserol am unrhyw faterion sy'n codi. Er bod cynnydd wedi ei wneud ar y meysydd y sonnir amdanynt yn rhan 6 yr adroddiad mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr Awdurdod yn fwy effeithiol yn y meysydd hynny ac mae hynny'n rhannol yn golygu newid diwylliant a gall hynny gymryd amser.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad y Rheolydd Archwilio Mewnol a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Bod y Rheolydd Archwilio mewnol, ar ran y Pwyllgor Archwilio yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol) ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio i roi cyfrif am sut roedd y sefyllfa mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer gwerthu, bilio a thalu am ddeisel arforol wedi codi a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.**
- **Bod y Rheolydd Archwilio Mewnol, ar ran y Pwyllgor Archwilio, yn cyfleu mewn llythyr i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, siom y Pwyllgor ynghylch y**

**penderfyniad a wnaed gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr i beidio ymchwilio ymhellach i'r twyll credydwr y ceisiwyd ei gyflawni yn erbyn y Cyngor ac eraill.**

## **7 DADANSODDIAD ANGHENION BLYNYDDOL A CHYNLLUN GWEITHREDU'R GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolydd Archwilio Mewnol yn ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 2015/16. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r broses ar gyfer asesu anghenion archwilio i gyflawni'r Cynllun Gweithredol.

Esboniodd y Rheolydd Archwilio Mewnol bod adolygiad o'r modd y darperir y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y Cyngor yn cael ei gynnal ar adeg cynhyrchu'r Cynllun Gweithredol Drafft ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2015/16, gan olygu nad oedd modd i'r Prif Swyddog Archwilio fedru rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd yr adnoddau archwilio mewnol sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2015/16.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio mewnol am y cyfnod 2015/16 fel un a oedd yn adlewyrchu meysydd yr oedd y Pwyllgor yn credu y dylent gael sylw fel blaenoriaeth yn amodol ar adnoddau.**
- **Nodi bod y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2015/16 yn seiliedig ar 850 o ddyddiau archwilio.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## **8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

## **9 CONTRACT RHEOLI AR GYFER Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL**

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod rheolaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan Baker Tilly a bod eu contract yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2015. Nid ystyrir mai'r model hybrid cyfredol o ddarpariaeth yw'r un mwyaf effeithiol ar gyfer gwasanaeth archwilio mewnol ac y byddai'n well un ai darparu'r gwasanaeth yn gwbl fewnol neu ei allanoli'n gyfan gwbl. Cytunwyd y dylid cynnal proses dendro i brofi'r farchnad am bris ar gyfer darparu'r gwasanaeth y gellid wedyn ei gymharu gyda'r pris ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn fewnol ac adrodd yn ôl wedyn i'r Pwyllgor hwn fel y gall wneud penderfyniad. Bydd cost darpariaeth fewnol yn adlewyrchu cost gwasanaeth wedi ei ailwampio er mwyn cyflwyno i'r Pwyllgor gynnig am dîm mewnol sy'n adlewyrchu arferion gorau ac sy'n gost-effeithiol.

Cafwyd trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Caffael i edrych ar ffyrdd o gynnal ymarfer tendro ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol yn ogystal â cheisio profi'r farchnad. Fodd bynnag, mae arwyddion cychwynnol yn awgrymu, oherwydd ystyriaethau penodol, efallai na fydd cystadleuaeth effeithiol o du'r farchnad. Cymerwyd camau felly i edrych ar y posibilrwydd o ddarparu'r gwasanaeth mewn partneriaeth gyda sefydliad sector cyhoeddus arall gan gynnwys gyda Phartneriaeth Rhannu Gwasanaethau GIG sy'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys gwasanaeth archwilio mewnol ar draws y GIG yng Nghymru a / neu awdurdod lleol arall, a chafwyd trafodaethau cychwynnol i'r perwyl hwnnw. Mae angen gwneud mwy o waith diwydrwydd dyladwy cyn y gellir cyflwyno cynnig pendant i'r Pwyllgor.

Yn y cyfamser, bydd yr Uwch Archwilydd Mewnol yn symud i fyny i swydd y Rheolydd Archwilio Mewnol. Bydd raid ystyried a fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar Gynllun Gweithredu 2015/16 yn y tymor byr.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan ystyried a ddylid cychwyn trafodaethau i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol gydag awdurdodau cyfagos. Barn y mwyafrif oedd y dylid parhau i ddilyn y llinellau ymholi cyfredol fel y cawsant eu disgrifio gan y Swyddog.

**Penderfynwyd cefnogi parhau gyda'r llinellau ymholi cyfredol fel yr adroddwyd gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Bod Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn diweddarar'r Pwyllgor ar y cynnydd gyda'r trafodaethau yn ei gyfarfod nesaf.**

**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes  
Cadeirydd**

**DRAFT**

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27 EBRILL 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2014/15</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ER GWYBODAETH</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>Y CYN REOLWR ARCHWILIO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>NODI'R CYNNWYS</b>

## 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1** Yn yr adroddiad canlynol, ceir crynodeb o waith yr Adain Archwilio Mewnol am 2014/2015. Mae'r Rheolwr Archwilio yn cyflwyno adroddiadau cynnydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio sy'n fodd o werthuso'n barhaus y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheolaeth fewnol fel y caiff ei adlewyrchu yn y gwaith Archwilio.
- 1.2** Daeth cyfres gyffredin o Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn weithredol o 01 Ebrill 2013. Mae'r PSIAS yn berthnasol i bawb sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus ac fe'u mabwysiadwyd gan y Cyngor Sir o'r dyddiad hwnnw.
- 1.3** Mae'r Prif Archwiliwr yn cadarnhau fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, hyd y gŵyr ef, wedi cydymffurfio gyda'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ac eithrio'r ffaith na chafwyd unrhyw raglen ffurfiol fewnol nac allanol ar gyfer sicrhau ansawdd yn ystod 2014-15. (PSIAS 1310)

## 2. ALLBYNNAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

- 2.1** Yn y tabl isod, ceir cymhariaeth o'r nifer o archwiliadau a gynlluniwyd a nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd mewn gwirionedd fel ag yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2015. Yr un modd ag unrhyw flwyddyn, bu'n rhaid diwygio'r cynllun archwilio yn 2014/15 er mwyn cymryd i ystyriaeth amryfal ffactorau a gododd yn ystod y flwyddyn. Eleni, roedd y ffactorau hynny'n ymwneud yn bennaf â'r gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud er mwyn rhoi sylw i risgiau a chyfeiriadau a oedd yn esblygu. Yn arbennig eleni, bu'n rhaid gwneud gwaith ychwanegol mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth a Dulliau Rheoli Mynediad Rhesymegol ynghyd â gwaith a oedd yn gysylltiedig â gweinyddu Cynlluniau Trydydd Sector.
- 2.2** Cyhoeddwyd 46 o adroddiadau (Terfynol a Drafft) yn codi o adolygiadau ffurfiol yn ystod 2014/2015, o gymharu â'r 50 a oedd yn y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol gwreiddiol ar gyfer 2014-15.
- 2.3** Mewn achosion lle nad oedd adolygiadau wedi cael eu cynnal yn 2014/15 ond bod lefel o risg y mae angen ei hadolygu'n parhau i fodoli, mae'r adolygiadau hynny wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol Mewnol ar gyfer 2015/16.
- 2.4** Cafodd y cyfan o'r adolygiadau ariannol allweddol yn y cynllun eu cwblhau ar ffurf derfynol neu ddrafft erbyn diwedd y cyfnod ym mis Mawrth 2015.
- 2.5** Yn ychwanegol at y gwaith ar Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2014/15, treuliyd y chwarter cyntaf o 2014/15 yn cwblhau gwaith o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2013/14 a chyhoeddwyd saith o adroddiadau terfynol yn ystod y cyfnod hwnnw.

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

- 3.1** Bob blwyddyn, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer Cymru gyfan ar gyfer meincnodi yn erbyn dangosyddion o ran cost ac allbynnau. Gwneir y gwaith meincnodi hwn ym mis Mai / Mehefin bob blwyddyn ac o'r herwydd, nid oedd canlyniadau 2014/15 ar gael mewn pryd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.
- 3.2** Pan fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi, byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad cynnydd nesaf ar Archwilio Mewnol.
- 3.3** Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol megis y ganran o'r Cynllun Gweithredol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod; bodddhad y cwsmeriaid yn gyffredinol (holiaduron); a'r ganran o argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd.
- 3.4 % o'r Cynllun Gweithredol a Gwblhawyd:** Fel sy'n digwydd bob blwyddyn, mae nifer o adolygiadau a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer Archwilio Mewnol naill ai wedi cael eu gohirio i'r flwyddyn nesaf neu wedi cael eu tynnu o'r Cynllun wrth i amgylchiadau newid ac wrth i systemau newydd gael eu cyflwyno. Ar y llaw arall, mae nifer o adolygiadau'n cael eu hychwanegu at y Cynllun yn y flwyddyn wrth i risgiau neu newidiadau i ymarferion cyfredol ddod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Felly, mae'r ganran o'r Cynllun Gweithredol a gwblhawyd yn cael ei gweithio allan ar sail nifer yr adolygiadau a gwblhawyd fel adroddiadau Drafft yn hytrach na nifer gwirioneddol yr adroddiadau Drafft a gyhoeddwyd sy'n ymwneud â'r meysydd hynny a gawsant eu cynnwys yn benodol yn y Cynllun Gweithredol a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Roedd 50 o adolygiadau a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol gwreiddiol ar gyfer 2014-15 a gafodd ei gymeradwyo yn Ebrill 2014. Cwblhawyd 46 o adolygiadau Drafft ac / neu Derfynol yn ystod y flwyddyn. Felly, cwblhawyd 92% o'r Cynllun Gweithredol.

- 3.5 % o Argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a Weithredwyd:** Ar 31 Mawrth 2015, roedd 49% o'r argymhellion Uchel a Chanolig wedi cael eu gweithredu'n gyffredinol a 71% heb gynnwys argymhellion a oedd yn ymwneud ag ysgolion ac a fu, unwaith eto eleni, yn anodd i'w monitro. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg i fynd i'r afael â'r broblem hon yn 2015/16.

Yn ystod 2014/15, cafodd ffurf yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ei ddiwygio fel bod manylion yr argymhellion categori Uchel sy'n parhau i fod angen sylw yn cael eu hamlygu er gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Caiff adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er eu gwybodaeth a'u cefnogaeth er mwyn sicrhau fod risgiau lefel Uchel yn cael sylw'n brydlon.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gweithio gyda'r Pwyllgor Archwilio i wella cyfraddau gweithredu ar argymhellion Uchel a Chanolig a gwneud Penaethiaid Gwasanaeth sy'n methu gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt o fewn y cyfnod amser penodedig yn fwy atebol. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio ychwanegu at y wybodaeth a roddir i Benaethiaid Gwasanaeth ynghylch statws argymhellion yn eu gwasanaethau er mwyn eu cynorthwyo gyda'r dasg hon.


- 3.6** Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw yn Ebrill 2015 ac unwaith eto, bydd yn gweithio gyda Gwasanaethau yn 2015/16 i ddiweddarau'r system 4Action gyda'r data gweithredu diweddaraf a fydd, gyda gobaith, o gymorth i wella'r sefyllfa yn erbyn y targedau.

#### **4. CASGLIAD CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWD**


4.1 Yn Nhabl 1, gwelir nifer yr adolygiadau yr ymgwymerwyd â nhw yn 2014/15 ac y cafwyd barn Gwyrdd; Gwyrdd/Ambr; Coch/Ambr neu Goch yn eu cylch ac mae'n cynnwys diffiniad ar gyfer pob lefel sicrwydd.

Tabl 1

Graddfa	Beth yw ystyr y Barn Graddfa CAG	System/Risg 2014/5
<b>Gwyrdd</b>	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.	15
<b>Gwyrdd Ambr</b>	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.  Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad.	14
<b>Coch Ambr</b>	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg.	4
<b>Coch</b>	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.  Rhaid cymryd camau i reoli'r risg.	4
<b>YMGYNGH OROL</b>	Adolygiad ymgynghorol wedi cael ei ddylunio i ddarparu cyngor arfer orau - dim barn ffurfiol	9
<b>CYFANSWM</b>		<b>46</b>



Tabl 2 – Siart Gylch o'r Farn CAG



- 4.2 Roedd canlyniadau cyffredinol ein gwaith Archwilio Mewnol a arweiniodd at farn sicrwydd CAG yn dangos fod 78% o adolygiadau o'r fath yn rhai cadarnhaol (Gwyrdd neu Gwyrdd/Ambr) a 22% yn rhai negyddol (Coch a Coch/ambr). Mae'r 22% o adroddiadau a arweiniodd at farn sicrwydd negyddol yn cynnwys wyth o adroddiadau (pedwar Coch a Coch/Ambr).

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer y systemau a adolygwyd yn un cadarnhaol Gwyrdd/Ambr sy'n cyd-fynd â'r blynyddoedd blaenorol.

- 4.3 Mae'r farn CAG gyffredinol hon yn adlewyrchu ychydig iawn o risg/risg isel i'r Awdurdod a hynny'n seiliedig ar sgôp y gwaith sy'n cael ei wneud, y camau gweithredu a argymhellwyd i reolwyr a'r systemau hynny'n parhau i weithredu'n unol â'r bwriad.
- 4.4 Mae'r Rheolwr Archwilio, fodd bynnag yn ymwybodol o feysydd lle y byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol yng nghyswllt y systemau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â meysydd a oedd eisoes yn peri pryder i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r cyfarfod ym mis Medi 2014. Bydd y meysydd hyn yn parhau i beri pryder i Archwilio Mewnol hyd oni fydd yr holl argymhellion o bwys wedi cael eu gweithredu a hyd oni fedrir rhoddi sicrwydd fod yr holl fframweithiau a systemau yn eu lle; wedi cael eu sefydlu'n gadarn; a'u bod yn wydn ac yn effeithiol. Dyma'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r meysydd hyn.

**Parhad Busnes** – Camau gweithredu a argymhellir i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn wedi cael eu casglu o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd gan gynnwys Archwilio Mewnol. Mae cynnydd o ran trefniadau bellach yn cael ei fesur ar sail Gogledd Cymru.

**Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Fframwaith Rheoli Risg ei hun a sefydlu rheoli risg yn gadarn yn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei datblygu ac rydym eto i weithredu ar drefniadau adrodd rheolaidd.

**Rheoli Gwybodaeth** – Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynnal adolygiad o'r maes hwn ac wedi nodi problemau a gwendidau rheoli tebyg i'r rheiny a nodwyd gan SAC, PWC ac Archwilio Mewnol mewn adroddiadau blaenorol. Mae adroddiad dilyn i fyny drafft gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrthi'n cael ei ystyried.

**Llywodraethiant** – Mae materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol wedi cael eu nodi eto yn 2014-15, er enghraifft, caffael corfforaethol; Diogelwch TGCh, Cynllun Trydydd Sector ac ati. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ei system electronig ar gyfer cydymffurfio gyda pholisïau a'u derbyn a oedd yn fodd o gofnodi fod defnyddwyr wedi darllen a deall y polisïau a'u bod yn cytuno i lynu wrthynt. Heb gofnod o'r fath, mae'r anos dangos fod y polisïau wedi cael eu cylchredeg yn ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad ar y materion hyn yn 2011-12, ac eto yn yr adroddiad ar Fynediad Rhesymegol yn Hydref 2014; fodd bynnag, mae nifer o'r argymhellion allweddol yn parhau i fod heb eu gweithredu.

**Fframwaith Caffael Corfforaethol** – Mae rheolwyr wedi ailstrwythuro a chryfhau'r Tîm Caffael. Bydd Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu. Mae adolygiad o'r trefniadau Caffael wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16 er mwyn rhoi sicrwydd fod y newidiadau wedi arwain at well cydymffurfiaeth gyda rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau.

**Fframwaith Partneriaethau** - Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Partneriaethau ffurfiol i roi sicrwydd fod yr holl bartneriaethau â threfniadau digonol o ran llywodraethiant, rheoli a pherfformiad i gwrdd â'u hamcanion datganedig a'u bod



yn darparu gwerth am arian o ran yr adnoddau ariannol a'r adnoddau eraill y mae'r Cyngor wedi eu buddsoddi ynddynt.

Derbyniodd adolygiad o gydymffurfiaeth gorfforaethol gyda chanllawiau a gyhoeddwyd o ran gweinyddu Cynlluniau Trydydd Sector hefyd farn sicrwydd Coch yn 2014/15.

Bydd adolygiad dilyn i fyny o adolygiad Archwilio Mewnol o Drefniadau Partneriaeth a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013 yn cael ei gynnal yn ystod chwarter cyntaf 2015/16.

**Gweithredu Argymhellion mewn Ysgolion** – Mae problem yn parhau o ran y modd y mae ysgolion yn gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethiant yn yr ysgolion a dylent fod o bryder i Brifathrawon a'r Adran Addysg.

Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor y mae angen parhau i weithio arnynt yn ystod 2015/16.

- 4.5** Dylid nodi na all unrhyw system o reolaeth fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt yn erbyn camdatganiadau o bwys neu golled.

Ni wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ac a gwblhawyd nodi unrhyw feysydd o bryder sy'n cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol neu yn gritigol o safbwynt busnes y Cyngor yn gyffredinol y tu draw i'r rhai a nodwyd yn 4.4. uchod.

## **TREFNIADAU ATAL TWYLL**

- 5.1** Ar 1 Tachwedd 2014, cymerodd Gwasanaeth Sengl Ymchwilio i Dwyll (SFIS) yr Adran Gwaith a Phensiynau y cyfrifoldeb am yr holl ymchwiliadau i dwyll "budd-dal" a oedd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn. Arweiniodd hynny at drosglwyddo un o ymchwilywyr yr awdurdod i'r tîm SFIS a phenodwyd yr ymchwilydd arall i swydd newydd sef Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- 5.2** I bob pwrpas, mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod mwyach yn ymchwilio i achosion o dwyll Budd-dal Tai oherwydd bydd hyn yn cael ei wneud yn awr gan yr SFIS. Fodd bynnag, ni fydd SFIS yn ymchwilio i achosion o dwyll mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) oherwydd nid yw'n cael ei gategoreiddio fel "budd-dal", ac o'r herwydd, rhagwelir y bydd y Swyddog Atal Twyll yn ymchwilio i droseddau CTRS. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd SFIS yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau Budd-dal Tai a CTRS ar y cyd yn y dyfodol.
- 5.3** Gyda chreu swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol, rhagwelir y bydd y swyddog yn ymchwilio i droseddau CTRS a throseddau eraill yn ymwneud â'r Dreth Gyngor. Rhagwelir y bydd y swyddog hwn, mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Tai, yn ymchwilio i achosion o dwyll tenantiaeth y bydd y Gwasanaeth Tai yn eu canfod. Bydd y CCFO hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw droseddau twyll posibl a fydd yn cael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol neu eu canfod ganddynt yn ystod eu gorchwylion archwilio arferol.
- 5.4** Yn ychwanegol at y mesurau ymatebol traddodiadol y cyfeirir atynt uchod, bwriedir i'r CCFO fod â rôl fwy rhagweithiol o ran atal Twyll Corfforaethol a sefydlu fframwaith corfforaethol a fydd yn anelu at greu diwylliant o ymwybyddiaeth o dwyll a'i atal yn yr Awdurdod.
- 5.5** Bwriedir mai un o brif flaenoriaethau'r CCFO ar y cychwyn fydd ymgynghori gyda'r holl Wasanaethau yn yr awdurdod er mwyn creu asesiad risg o ran twyll corfforaethol. Bydd yr asesiad risg hwn yn cael ei ddefnyddio i lunio polisiau a fydd yn gostwng colledion i'r Cyngor ac, yn y pen draw, i'r pwrs cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn, bydd y CCFO yn hwyluso hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o dwyll o ran dogfennau ffug a all gael eu cynhyrchu i bwrpas sefydlu hunaniaeth (ID).

## **6. DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

- 6.1** Yn ôl PSIAS 2450, rhaid i'r Prif Archwiliwr ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad fel sylfaen ar gyfer ei ddatganiad llywodraethu. Yn ôl y safon, rhaid i'r farn archwilio ddod i gasgliad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad.

- 6.2** Caiff crynodebau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ynghyd â'r canlyniadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio drwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol y Rheolwr Archwilio. Cyflwynir adroddiad manwl i'r Pwyllgor Archwilio ar unrhyw adolygiad a oedd yn seiliedig ar systemau ac sydd wedi derbyn barn sicrwydd coch ac adroddir yn ôl ar ymateb y rheolwr i'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.
- 6.3** Cyhoeddwyd cyfanswm o bedwar adroddiad 'Sicrwydd Coch' yn 2014-15. Roedd y rhain yn ymwneud ag adolygiadau o Drefniadau Staff Asiantaeth; Rheoliadau Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau a Chynlluniau Trydydd Sector. Cafwyd barn Sicrwydd Coch hefyd ar weithredu ar argymhellion mewn perthynas â'r adolygiad dilyn i fyny o Fynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau.
- 6.4** Arweiniodd pedwar o'r adolygiadau yr ymgwymerwyd â nhw yn ystod 2014-15 at farn sicrwydd 'Coch Ambr' gyda'r rhain yn ymwneud ag adolygiadau dilyn i fyny ar weithredu ar argymhellion a wnaed yn adroddiad Credydwy'r 2013/14; Trefniadau Digartrefedd; Cyflogres Athrawon ac adolygiad o Ddyledwyr Amrywiol 2014/15.
- 6.5** Ar sail y gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2014/15, a chan gymryd i ystyriaeth y meysydd sy'n parhau i beri pryder fel y manylir arnynt yn adran 4.4 yr adroddiad hwn a nifer yr adroddiadau 'Coch' a 'Coch Ambr' a gyhoeddwyd fel y manylir arnynt yn adrannau 6.3 a 6.4 yr adroddiad hwn, mae gan y Cyngor drefniadau digonol ar gyfer rheoli risgiau. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau i fynd i'r adael â'r meysydd hynny sy'n parhau i beri pryder, yn arbennig felly o safbwynt rheoli risg a llywodraethiant a chryfhau'r trefniadau rheoli mewn perthynas â'r meysydd eraill o'r adolygiad lle canfuwyd gwendidau yn 2014/15 a'r blynyddoedd cyn hynny.

## Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Cyfnod gyda Barn CAG

## Atodiad A

Dilyn i fyny Credydwy	COCH Ambr
	YMGYNGHORO
Effeithlonrwydd	L
Budd-daliadau	GWYRDD Ambr
Cyflogres	GWYRDD Ambr
Rheoli Trysorlys	GWYRDD
	YMGYNGHORO
TAW	L
Cwynion	GWYRDD
Asiantaeth	COCH
Oriau Gofalwyr Cartref	GWYRDD Ambr
	YMGYNGHORO
Ymddiriedolaeth Elusennol	L
Rhybuddion Dirwy	GWYRDD
	YMGYNGHORO
Porth Amlwch	L
Rhenti Tai	GWYRDD Ambr
Rheoliadau Mynediad Rhesymegol	COCH
Llywodraethu Gwybodaeth – Dilyn i Fyny	GWYRDD
Ysgol Henblas	GWYRDD
Ysgol Cylch y Garn	GWYRDD
	YMGYNGHORO
Rheoli Cyllid Ysgolion - Cyllidebau	L
Cynlluniau Trydydd Sector	COCH
Grantiau Gwisg Ysgol	GWYRDD
Dilyn i fyny - Ysgolion	GWYRDD Ambr
Plas Arthur – Canolfan Hamdden	GWYRDD
	YMGYNGHORO
NFI 2014	L
	YMGYNGHORO
Depo Gaerwen Depot - Diesel	L
Cau Cyfrifon	GWYRDD
Canolfan Hamdden Amlwch	GWYRDD
Rheoliadau Mynediad Rhesymegol – Dilyn i fyny	COCH
Cynllun Trydydd Sector – Dilyn i fyny	GWYRDD Ambr
TalNet	GWYRDD Ambr
	YMGYNGHORO
Tanwydd Arforol	L
Digartrefedd	COCH Ambr
Datblygu Chwaraeon	GWYRDD
Cyflogres Athrawon	COCH Ambr
Ysgol Pentraeth	GWYRDD Ambr
Ysgol Llangoed	GWYRDD
Y Dreth Gyngor	GWYRDD Ambr
Trethi Cenedlaethol Annomestig	GWYRDD Ambr
Arianwyr	GWYRDD
Dyledwyr Amrywiol	COCH Ambr

Credydwyr  
Prif System Gyfrifon  
Cyflogres  
Rheoli Trysorlys  
Budd-daliadau Tai  
Rhenti Tai  
  
Bryn Trewan

GWYRDD Ambr  
GWYRDD Ambr  
GWYRDD Ambr  
GWYRDD  
GWYRDD Ambr  
GWYRDD  
YMGYNGHORO  
L

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27 EBRILL 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>SIARTER ARCHWILIO MEWNOL</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADOLYGU A CHYMERADWYO'R SIARTER DDIWYGIEDIG</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>AR GYFER CYMERADWYAETH Y PWYLLGOR</b>

## **1. RHAGARWEINIAD**

- 1.1** Rhaid i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, gynhyrchu Siarter Archwilio Mewnol sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.
- 1.2** Pwrpas y Siarter yw diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Y Siarter Archwilio Mewnol sy'n pennu statws y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn y sefydliad, gan gynnwys natur perthynas ymarferol y Rheolwr Archwilio o ran adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant; mae'n awdurdodi hawl i weld cofnodiadau, staff ac eiddo ffisegol sy'n berthnasol i berfformiad dyletswyddau ac mae'n diffinio sgôp y gweithgareddau Archwilio Mewnol.
- 1.3** Rhaid i'r Rheolwr Archwilio adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd a'i chyflwyno i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i'w chymeradwyo. Y 'bwrdd' (y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant) sy'n cymeradwyo'n derfynol y Siarter Archwilio Mewnol.

## **2. CAMAU GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL**

- 2.1** Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, mae drafft o'r Siarter Archwilio Mewnol wedi ei diwygio a'i diweddarau er sylw a chymeradwyaeth ffurfiol y Pwyllgor.

<b>Teitl:</b>	<b>SIARTER ARCHWILIO MEWNOL</b>
<b>Adolygwyd diwethaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO – 27 Ebrill 2015</b>
<b>Adolygiad nesaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO – Ebrill 2018</b>
<b>Awdur:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>

## 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth archwilio annibynnol a statudol ac mae darpariaeth ar ei chyfer yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005 (Cymru) (fel y cawsant eu diwygio yn 2007). Mae'r uned y tu mewn i'r Adran y Dirprwy Brif Weithredwr ac yn darparu gwasanaeth i'r Cyngor a phob lefel o reolwyr. Mae hefyd yn cynnig cymorth i'r "swyddog cyfrifol" (y Swyddog Adran 151 dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972), gogyfer cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i weinyddu'r holl faterion ariannol mewn modd priodol. Mae ei rôl hefyd yn cynnwys darparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth i uwch reolwyr ac Aelodau'r Cyngor.
- 1.2 Dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rhaid i gorff llywodraeth leol gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer ei gofnodiadau archwilio a'i system reolaeth fewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol.
- 1.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) sy'n cynnwys yr angen am Siarter Archwilio Mewnol ac sy'n manylu ar yr hyn y dylai Siarter ar gyfer Corff Llywodraeth Leol ei chynnwys. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol hon wedi ei dylunio i gwrdd â'r gofyniad hwnnw.
- 1.4 Nid yw bodolaeth yr Adain Archwilio Mewnol yn lleihau dim ar gyfrifoldeb y rheolwyr wrth iddynt sefydlu systemau o reolaethau mewnol i sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel, effeithiol a threfnus.
- 1.5 Mae'r Safonau yn neilltuo cyfrifoldeb am y Siarter Archwilio Mewnol a pherchenogaeth ohoni yn y sefydliad. Yn ôl PSIAS 1000, rhaid i'r Prif Swyddog Archwilio (sef y Rheolwr Archwilio yn achos Cyngor Sir Ynys Môn) adolygu'r siarter o bryd i'w gilydd ond mae'r cyfrifoldeb am ei chymeradwyo'n derfynol yn gorwedd gyda'r 'bwrdd' (sef y Pwyllgor Archwilio yn achos Cyngor Sir Ynys Môn).

## 2. Pwrpas y Siarter Archwilio Mewnol

- 2.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn nodi mai dyma yw pwrpas Siarter Archwilio Mewnol:

*“a formal document that defines the internal audit activity’s purpose, authority and responsibility. The internal audit charter establishes the internal audit activity’s position within the organisation, including the nature of the chief audit executive’s*

*functional reporting relationship with the board; authorises access to records, personnel and physical properties relevant to the performance of engagements; and defines the scope of internal audit activities. Final approval of the internal audit charter resides with the board.”*

### **3. Y Diffiniad o Archwilio Mewnol**

- 3.1 Yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, dyma yw'r diffiniad o Archwilio Mewnol:

*‘Internal auditing is an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation’s operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes.’*

- 3.2 Dywed y PSIAS y dylai archwilio mewnol, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r sefydliad, weithio mewn partneriaeth gyda rheolwyr er mwyn gwella'r amgylchedd reoli a chynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Mae'r Safonau'n awgrymu y dylai'r bartneriaeth hon weithredu mewn modd sy'n golygu y gellir cwrdd â gofynion cyfreithiol a gofynion y PSIAS.

- 3.3 Yn ogystal, dywed y PSIAS y dylai Archwilio Mewnol ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol ei fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Gall hefyd ymgymryd â dyletswyddau ymgynghorol ar gais y sefydliad ar yr amod nad yw hynny'n cael effaith ar y gwaith sicrwydd craidd ac ar y sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael.

### **4. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

- 4.1 Mae'r Safonau'n cyfeirio at amryfal swyddogion a chyrrff cyfrifol ac at swyddogaethau a chyfrifoldebau am Archwilio Mewnol. Rhestrir y prif swyddogion a chyrrff isod a nodir hefyd y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sydd wedi cael eu neilltuo iddynt yn y Safonau a'r swyddog neu'r corff cyfatebol y neilltuwyd y cyfrifoldebau hynny iddynt yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

- 4.2 **‘Bwrdd’ a ‘Pwyllgor Archwilio’** – diffinnir y bwrdd fel: *‘the highest level of governing body charged with the responsibility to direct and/or oversee the activities and management of the organisation. The term ‘Board’ may refer to an audit committee to which the governing body has delegated certain functions.’*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dirprwyo i'w Bwyllgor Archwilio a Llywodraethiant – mewn cylch gorchwyl sydd wedi ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor – y cyfrifoldeb am:

*“Sicrhau fod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaeth ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.” (Cyfansoddiad CSYM - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant)*

- 4.3 ‘Prif Swyddog Archwilio’** – Y swyddog sy’n gyfrifol am oruchwylio a rheoli’r swyddogaeth archwilio mewnol. Yn ôl PSIAS (Safon 1210 – gallu), rhaid i’r Prif Swyddog Archwilio feddu ar gymhwyster proffesiynol (CMIIA, CCAB neu gyfatebol) a bod â phrofiad addas. Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, y Rheolwr Archwilio sydd â’r swyddogaeth hon.
- 4.4 ‘Uwch Reolwyr’** – yn ôl y Safonau, rhaid dehongli ‘uwch reolwyr’ yng nghyd-destun y trefniadau llywodraethiant ym mhob sefydliad unigol. Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, ystyrir mai aelodau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a’r Penaethiaid Gwasanaeth yw’r uwch reolwyr. O ran adrodd yn uniongyrchol ar ganlyniadau gwaith archwilio mewnol, gwneir hynny i’r rheolwyr llinell gweithredol a’r Pennaeth Gwasanaeth lle mae hynny’n briodol. Mae’r Swyddog Adran 151 yn derbyn copïau o’r holl adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae’r Prif Swyddog Archwilio hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda’r Dirprwy Brif Weithredwr i drafod materion yn ymwneud â risg, llywodraethiant a rheolaeth. Mae’r Prif Swyddog Archwilio hefyd yn rhydd i adrodd yn uniongyrchol i unrhyw aelod o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu’r Penaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y Prif Weithredwr a’r Swyddog Monitro.
- 4.5 Cynlluniau Archwilio Mewnol** - Y Prif Swyddog Archwilio sy’n gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Archwilio Mewnol Gweithredol a Strategol ond, yn ymarferol, gwneir hyn mewn ymgynghoriad gydag uwch reolwyr a chan wahodd mewnbwn ganddynt.

Caiff y Cynllun Gweithredol a Strategol ar gyfer Archwilio Mewnol ei gyflwyno bob blwyddyn i’r Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei fabwysiadu. Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â’r Cynllun Gweithredol i bob cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio fel rhan o’r Adroddiad Cynnydd ar Archwilio Mewnol y mae’r Rheolwr Archwilio yn ei ysgrifennu a’i gyflwyno.

## **5. Pwrpas Archwilio Mewnol**

- 5.1** Swyddogaeth yr Adain Archwilio Mewnol yw deall a rhoddi sicrwydd bod y risgiau allweddol sy’n wynebu’r Cyngor yn cael eu lleddfu’n ddigonol a hefyd mae’r Adain yn archwilio ac yn asesu pa mor ddigonol a pha mor effeithiol yw’r system o reolaethau mewnol a’r system rheoli risg y mae’r Cyngor yn eu defnyddio yn ei holl feysydd. Mae’r Tîm Archwilio Mewnol yn adolygu, yn asesu ac yn cyflwyno adroddiadau ar:
- ♦ Pa mor ddigonol ac effeithiol yw’r systemau ariannol, gweithredol a goruchwylio rheolaeth a gweithrediad ymarferol y rhain yng nghyswllt y risgiau busnes y bydd raid rhoddi sylw iddynt;
  - ♦ I ba raddau y cydymffurfir gyda pholisïau, safonau, cynlluniau a gweithdrefnau perthnasol a sefydlwyd gan y Cyngor ac i ba raddau hefyd y cydymffurfir gyda chyfreithiau a rheoliadau allanol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ar ofynion cyrff rheolaethol;
  - ♦ I ba raddau y mae asedion a buddiannau yn cael eu prynu am bris economaidd, i ba raddau y maent yn cael eu defnyddio’n effeithiol, i ba raddau y mae cyfrif amdanynt ac i ba raddau hefyd y diogelir nhw rhag colledion o bob math a all ddigwydd yn sgil gwastraff, afraded, gweinyddiaeth aneffeithiol, gwerth gwael am arian, twyll neu yn sgil unrhyw achos arall a sicrhau hefyd bod cynlluniau parhad busnes digonol yn eu lle;



- ♦ Ar addasrwydd, cywirdeb, cadernid ac integriti gwybodaeth rheoli cyllid ac unrhyw wybodaeth arall a dulliau a ddefnyddir i nodi, mesur, egluro a chyflwyno adroddiadau ar wybodaeth o'r fath.
- ♦ Integriti'r prosesau a'r systemau, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu datblygu, gyda golwg ar sicrhau bod y rheoliadau sydd yn eu lle yn cynnig digon o ddiogelwch yn erbyn unrhyw gamgymeriad twyll neu golled o bob math; a bod y broses hefyd yn mynd law yn llaw ag amcanion strategol y Cyngor;
- ♦ Y camau dilynol a gymerir i gywiro unrhyw wendidau a ganfuwyd mewn unrhyw arolwg gan yr Adain Archwilio Mewnol gan sicrhau bod yr arferion da yn cael eu nodi a hefyd yn cael eu dwyn i sylw cylch eang;
- ♦ Gweithrediad trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- ♦ Y potensial y bydd twyll neu ddrygioni arall yn digwydd – gwneir dadansoddi o'r systemau rheoli sy'n berthnasol i unrhyw waith risg uchel.

Yn ogystal mae'r adran yn ymchwilio i dwyll ac anghysonderau yng nghyswllt:

- ♦ Cynnal ymchwiliadau i adroddiadau o anwybyddu rheolau'r Cyngor neu i weithgareddau troseddol h.y. twyll yn erbyn y Cyngor.
- ♦ Cynnal ymchwiliadau i unrhyw adroddiadau gan staff neu bobl eraill sydd yn rhan o weithgareddau ar ran y Cyngor a chan aelodau o'r cyhoedd pan geir gwybod am y posibilrwydd bod rheolau neu reoliadau yn cael eu diystyru, neu pan fo achosion o gamreoli neu o gamymddwyn neu achosion o dwyllo'r awdurdod.

5.2 Pryd bynnag y tybia bod hynny'n angenrheidiol bydd yr Adain Archwilio Allanol yn cynnal ymchwiliadau, naill ai yn annibynnol neu ar y cyd gyda'r Adain Archwilio Mewnol.

## 6. Annibyniaeth

6.1 Yn ôl y Safonau, rhaid sefydlu trefniadau adrodd a rheoli sy'n gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd y Prif Swyddog Archwilio, yn arbennig mewn perthynas â'r egwyddor bod rhaid i'r Prif Swyddog Archwilio fod yn annibynnol ar y gweithgareddau sy'n cael eu harchwilio. Yn ogystal, mae'r Safonau'n mynnu fod sefydliadau yn sicrhau fod annibyniaeth y Prif Swyddog Archwilio'n cael ei gwarchod er mwyn osgoi gwrthdaro o ran diddordebau, p'un ai canfyddiad yw hynny neu'n digwydd mewn gwirionedd.

6.2 Felly, yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae Archwilio Mewnol yn annibynnol ar y gweithgareddau hynny y mae'n eu harchwilio a hynny i sicrhau y ceir barn ddiuedd sy'n angenrheidiol i'r gwaith ac er mwyn sicrhau fod rheolwyr yn cael cyngor diduedd.

6.3 I ddiogelu ei hannibyniaeth mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gweithio y tu mewn i fframwaith sy'n:

- ♦ Caniatáu mynediad dirwystr i holl weithgareddau'r Cyngor.

- ♦ Caniatáu mynediad dirwysr i'r holl waith, cofnodiadau, asedau staff ac eiddo er mwyn cael unrhyw wybodaeth ac esboniadau sy'n hanfodol iddo gyflawni ei swyddogaethau. (Dan amgylchiadau eithriadol iawn pan fo'r "swyddog cyfrifol" (Swyddog Adran 151) ynghyd â'r Swyddog Monitro yn credu y buasai hyn yn torri cyfraith cyfrinachedd, neu yn torri darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol neu ofynion y Ddeddf Diogelu Data, trosglwyddir y mater i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ei ystyried.
  - ♦ Caniatáu mynediad llawn a rhydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant trwy'r Rheolydd Archwilio.
  - ♦ Caniatáu mynediad rhydd i uwch reolwyr, i Aelodau ac i'r holl weithwyr.
  - ♦ Darparu ar gyfer rhyddhau adroddiadau archwilio yn ei henw ei hun.
  - ♦ Ei gwahanu'n glir oddi wrth y gwaith llinell.
- 6.4 Gwneir popeth bosib i ddiogelu gwrthrychedd a hynny trwy sicrhau bod holl staff yr Adain Archwilio Mewnol yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannol a thrwy sicrhau hefyd nad ydynt yn gwneud unrhyw waith y tu allan i'r maes archwilio. Gwneir y cyfan o'r gwaith archwilio mewnol yn gwbl gytûn â PSIAS a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

## 7. Swyddogaeth Atal Twyll

- 7.1 Rhaid i'r Rheolwr Archwilio reoli gwasanaeth archwilio cyflawn i'r Cyngor a bydd hwnnw yn cynnwys archwilio systemau, cysondeb, cyfrifiaduron a chontractau yn ychwanegol at wneud unrhyw waith archwilio i dwyll ac anghysonderau.
- 7.2 Mae gwaith atal twyll yn cynnwys, yn y lle cyntaf, sicrhau fod rheoliadau digonol ar gael i atal, canfod ac adrodd ar dwyll ar lefel Gwasanaeth.
- 7.3 Pan geir honiadau o afreoleidd-dra ac / neu dwyll, mae Archwilio Mewnol yn gyfrifol am ymchwilio i'r achosion o afreoleidd-dra a thwyll sydd, fe honnir, wedi cael eu cyflawni gan weithwyr y Cyngor neu gan eraill yn erbyn y Cyngor.
- 7.4 Mae'r Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod trefniadau digonol yn cael eu sefydlu i ymchwilio i honiadau a dderbynnir a bod lefel y wybodaeth a'r arbenigedd yn yr adain ar gyfer ymchwilio'n benodol i afreoleidd-dra a thwyll yn cael ei chynnal.
- 7.5 Caiff crynodebau o gasgliadau ymchwiliadau eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ffurf adroddiadau cynnydd chwarterol. Caiff Adroddiad Blynnyddol ar Atal Twyll hefyd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ac ynddo, nodir y gweithgareddau atal twyll yr ymgymeryd â nhw ym mhob blwyddyn ariannol.

## 8. Perthynas gyda'r Archwiliwr Allanol

- 8.1 Mae'r PSIAS yn cydnabod, er bod gan yr archwiliwr allanol ddyletswyddau statudol gwahanol, fod manteision clir i'r Awdurdod o gynnal perthynas weithio dda rhwng yr

Adain Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol. Y fantais amlycaf yw cyfle i osgoi dyblygu gwaith ac i'r diben hwn cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) a'r Archwilwyr Allanol.

## **9. Adnoddau Archwilio**

- 9.1 Yn yr adain, bydd rhai staff gyda chymwysterau priodol a rhai hebddynt ac anelir at sicrhau bod ynddi wahanol arbenigeddau proffesiynol i adlewyrchu gwaith amrywiol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- 9.2 Mae adnoddau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio trwy dderbyn diweddariad y Rheolwr Archwilio ar y Cynlluniau Strategol a Gweithredol – Archwilio Mewnol.
- 9.3 Onid yw unrhyw arbenigedd yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yna bydd y Rheolwr Archwilio, lle mae adnoddau'n caniatáu, yn cael y rheini yn ôl y gofyn o'r tu allan i'r Cyngor.
- 9.4 Ni fydd yr Adain Archwilio Mewnol yn rhan o waith dydd i ddydd yng nghyswllt unrhyw systemau rheoli cyllid mewnol.

## **10. Hyfforddiant Archwilio**

- 10.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn cynnal arolygon rheolaidd ar anghenion datblygu a hyfforddiant yr holl staff archwilio trwy gynnal gwerthusiadau blynyddol a bydd yn trefnu hyfforddiant mewn swydd trwy droi at gyrsiau mewnol ac allanol.
- 10.2 Yn ôl PSIAS (1230 – Datblygiad Proffesiynol Parhaus), rhaid i archwilwyr mewnol wella eu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau eraill drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## **11. Cyflwyno Adroddiadau**

- 11.1 Yn ôl y Safonau, rhaid i'r Prif Swyddog Archwilio adrodd i lefel yn y sefydliad sy'n caniatáu i'r swyddogaeth archwilio mewnol gyflawni ei gyfrifoldebau ac adrodd i'r bwrdd yw'r dull a dderbynnir yn gyffredinol fel yr un sy'n sicrhau annibyniaeth y sefydliad.
- 11.2 Gyda phob aseiniad archwilio rhaid cyflwyno adroddiad ffurfiol. Ceir cyfarfodydd ymgynghori gyda'r holl reolwyr hynny sy'n gyfrifol am y maes a adolygir gyda golwg ar gytuno yng nghyswllt cywirdeb ffeithiol y casgliadau a'r canfyddiadau. Ar ôl cyrraedd cytundeb, cyhoeddir adroddiadau drafft i reolwr ac/neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol y swyddogaeth syn cael ei hadolygu. Mae adroddiadau drafft yn cynnwys cael ymateb y rheolwyr o ran cadarnhau eu bod yn derbyn yr argymhellion a wnaed, y camau a gymerir i weithredu'r argymhellion a'r swyddogion y neilltuwyd y cyfrifoldeb gweithredu iddynt ynghyd ag amserlenni ar gyfer gweithredu. Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei gwblhau'n llawn a'i ddychwelyd i'r Tîm Archwilio Mewnol, cynhyrchir adroddiad terfynol a'i gyhoeddi.
- 11.3 Caiff copïau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol eu hanfon ymlaen i'r Swyddog Adran 151 er gwybodaeth. Caiff crynodebau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol

gweithredol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant mewn adroddiadau cynnydd chwarterol.

- 11.4 Bydd unrhyw adroddiadau Archwilio Mewnol sy'n derbyn barn sicrwydd 'Coch' drwy system CAG y Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant mewn adroddiadau cynnydd chwarterol.
- 11.5 **Tracio Argymhellion** – Dan PSIAS (2500.A1 – Monitro Cynnydd), rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses ddilyn-i-fyny er mwyn monitro a sicrhau fod rheolwr wedi gweithredu'n effeithiol neu eu bod wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.
- 11.6 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal system electronig ar gyfer tracio argymhellion yn achos yr holl argymhellion Archwilio Mewnol a wneir. Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar berfformiad rheolwyr mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion hyn a hynny drwy gyfrwng adroddiadau cynnydd a gyflwynir gan y Rheolwr Archwilio.

## 12. Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio

- 12.1 Mae'r Rheolwr Archwilio yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithgaredd Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn sydd newydd ddod i ben a chaiff yr adroddiad hwnnw ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant nesaf wedi i'r cyfnod ddod i ben. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn archwilio mewnol flynyddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod y cyfnod perthnasol.

## 13. Yr Iaith Gymraeg

- 13.1 Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gwbl gefnogol i Bolisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod. Adroddir yn ddwyieithog lle bynnag y mae hynny'n bosibl ac mae mwyafrif staff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ddwyieithog a gallant gynnal adolygiadau yn newis iaith y sawl sy'n cynorthwyo gydag adolygiadau.

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27 EBRILL 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADOLYGIAD O'R PROTOCOL AR ÔL EI DDIWYGIO A'I DDIWEDDARU</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>ER GWYBODAETH A SYLWADAU'R PWYLLGOR</b>

## **1. RHAGARWEINIAD**

- 1.1 Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Broctocol Archwilio Mewnol y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr sy'n nodi'r gwahanol gamau ar gyfer ymgysylltiadau Archwilio Mewnol a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhain. Mae'r Protocol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n unol â rheoliadau ac arferion cyfredol.
- 1.2 Yn y Protocol Archwilio Mewnol hwn, nodir methodoleg ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllunio, perfformiad a rhoi gwybod am ganlyniadau adolygiadau Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn y Protocol, nodir yr hyn sydd ei angen gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i gleientiaid er mwyn cyflawni yn y modd gorau yr amcanion archwilio a bennwyd.

## **2. CAMAU GWIETHREDU ANGENRHEIDIOL**

- 2.1 Mae'r Protocol Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno yma er gwybodaeth ac er sylwadau'r Pwyllgor Archwilio.



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

<b>Teitl:</b>	<b>PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL</b>
<b>Dyddiad yr Adolygiad diwethaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO – 27 Ebrill 2015</b>
<b>Dyddiad yr Adolygiad nesaf:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO – Ebrill 2017</b>
<b>Awdur:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>

## **PROTOCOL AR GYFER ARCHWILIO MEWNOL**

### **Cyflwyniad**

Mabwysiadodd y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) gyfres gyffredin o Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) o 1 Ebrill 2013. Mae'r PSIAS yn cwmpasu elfennau mandadol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA). Y RIASS perthnasol ar gyfer llywodraeth leol yn y Deyrnas Unedig yw CIPFA. (PSIAS – Trosolwg o'r Fframwaith)

### **Pwrpas y Protocol**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhaid i'r holl weithgareddau Archwilio Mewnol gydymffurfio gyda'r safonau hyn. Mae'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn cynnwys, ymysg eraill, safonau sy'n ymwneud â'r isod:

- Cynllunio Ymgysylltiad (PSIAS 2200) sy'n ymwneud ag Amcanion Ymgysylltiad, Sgôp, Adnoddau a Rhaglenni Gwaith (PSIAS 2210; 2220; 2230 & 2240).
- Cyflawni'r Ymgysylltiad (PSIAS 2300) sy'n cynnwys Goruchwylio Ymgysylltiad (2340).
- Rhoi gwybod am Ganlyniadau (PSIAS 2400) sy'n cynnwys y Meini Prawf ar gyfer Cyfathrebu (2410) a Rhannu Canlyniadau (2440).

Yn y Protocol Archwilio Mewnol hwn, nodir methodoleg ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllunio, perfformiad a rhoi gwybod am ganlyniadau adolygiadau Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Yn y Protocol, nodir

yr hyn sydd ei angen gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i gleientiaid er mwyn cyflawni yn y modd gorau yr amcanion archwilio a bennwyd.

## **Diffiniad o Archwilio Mewnol**

Caiff Archwilio Mewnol ei ddiffinio fel a ganlyn yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus:

*“Internal auditing is an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation’s operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes.” (PSIAS – adran 3)*

## **Amcanion Archwilio**

Amcan unrhyw archwiliad yw cynorthwyo a chefnogi rheolwyr i nodi cryfderau a gwendidau mewn systemau a gwella'r systemau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Er mwyn cyrraedd y nod cyffredin hwn, rhaid i'r naill barti a'r llall gyfathrebu a chydweithio drwy gydol y broses er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn diwallu anghenion yr adran gleient a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Pwrpas y protocol hwn yw darparu model o system y gall Archwilwyr a Chredydwyr ei dilyn ac er mwyn sicrhau mewnbwn i'r broses gan yr Adran Gleient. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosib y gellir cyfiawnhau gwyro o'r model hwn.

Nid yw'r protocol hwn ond yn ymwneud ag archwiliadau cynlluniedig a nodwyd yn y rhaglen archwilio ac nid yw'n cynnwys ymchwiliadau arbennig neu archwiliadau sy'n golygu y bydd yr archwiliwr yn ymweld yn ddirybudd.

### **1. Cynllunio Archwiliad**

1.1 Yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, y prif swyddog archwilio sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun yn seiliedig ar risg. Bydd y prif swyddog archwilio yn cymryd i ystyriaeth fframwaith rheoli risg y sefydliad gan gynnwys defnyddio'r lefel awch o ran risg a osodwyd gan reolwyr ar gyfer gwahanol weithgareddau neu rannau o'r sefydliad. Onid oes fframwaith ar gael, bydd y prif swyddog archwilio yn defnyddio ei farn/barn ei hun ynglŷn â'r risgiau ar ôl ystyried mewnbwn gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Rhaid i'r prif swyddog archwilio adolygu ac addasu'r cynllun yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a dulliau rheoli'r sefydliad. (PSIAS 2010 - Cynllunio)

1.2 Bydd y broses o gynllunio archwiliad yn cael ei wneud yn flynyddol ym mis Ionawr a Chwefror ac fe'i cynllunnir trwy wneud asesiad risg o holl feysydd y sefydliad. Byddir yn cytuno ar y rhan berthnasol o'r cynllun archwilio gyda phob Gwasanaeth unigol cyn pob blwyddyn ariannol. Canlyniad hyn oll yw bod pob uwch reolydd yn cael gwybod am bob maes o dan eu rheolaeth, y mae'r Archwiliwr Mewnol yn bwriadu ei archwilio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r broses cynllunio'n gyfle i gael trafodaeth rhwng archwilio mewnol a'r Gwasanaethau i nodi unrhyw feysydd lle cafwyd newid neu bryder yn y meysydd

sydd i'w hadolygu. Bydd y materion fydd yn cael eu trafod yn cael eu bwydo i mewn i'r cyfnod cynllunio ar gyfer yr archwiliadau hyn. Mae cael ymwneud uwch reolwyr y Cyngor yn y broses hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod archwiliadau yn cael dylunio er mwyn ychwanegu'r gwerth mwyaf i bob maes.

Bydd y cyfnod cynllunio yn golygu cael trafodaeth ar ddyddiadau bras ar gyfer gwneud yr archwiliadau er mwyn osgoi amseroedd prysur i'r adrannau ac i darfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar waith yr adran. Lle bo'n bosibl, bydd archwilio mewnol yn dylunio'r rhestr archwilio o gwmpas y dyddiadau bras hyn. Fodd bynnag, er mwyn ffitio i mewn gyda gofynion yr Archwiliwr Allanol, neu er mwyn sicrhau bod unrhyw sgiliau penodol sydd eu hangen i gwblhau rhai adolygiadau ar gael, efallai y bydd raid newid yr amseroedd y cytunwyd arnynt yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaethau.

Er mwyn i bob archwiliad fod yn hollol gefnogol i'r rheolwyr ac i ychwanegu gwerth mae'n hanfodol bod rheolwyr ac archwilio mewnol yn gweithio gyda'i gilydd a bod yr Archwiliwr Mewnol yn gallu mynd at y bobl a'r wybodaeth iawn ar yr amser iawn.

- 1.3 Pan fo'r Archwiliwr yn barod i ddechrau unrhyw archwiliad arbennig sy'n cael ei nodi yn y Cynllun Archwilio, byddir yn hysbysu'r uwch reolwr perthnasol trwy femorandwm **o leiaf 7 niwrnod cyn dyddiad arfaethedig y cyfarfod sgopio**. Fe ddylai'r memorandwm roddi disgrifiad byr o'r cylch gorchwyl a fwriedir, er y gellir cael amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i'r Archwiliwr lunio'r cylch gorchwyl a fwriedir ar yr amser hwn (e.e. system newydd nad yw wedi ei harchwilio cyn hynny). Os yn bosibl, fe ddylid hefyd roddi dyddiad ar gyfer dechrau'r gwaith.
- 1.4 Fel cam cychwynnol yr archwiliad, bydd cyfarfod sgopio yn cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr a'r Penaeth(iaid) Gwasanaeth **o leiaf 7 niwrnod cyn rhyddhau'r daflen cynllunio archwiliad**. Pwrpas y cyfarfod hwn yw trafod y meysydd y mae'r Archwiliwr wedi eu hasesu fel rhai sydd â risg digonol i fod angen eu cynnwys yn yr archwiliad a hefyd i ystyried pryderon a blaenoriaethau'r client ac i fwydo'r meysydd hyn i mewn i'r broses cynllunio er mwyn cytuno ar gylch gorchwyl terfynol yr archwiliad.

Fodd bynnag, wrth lunio'r cylch gorchwyl, fe ddylid nodi bod rhaid i'r Archwiliwr gynnal ei h/annibyniaeth ac ni all cleientiaid fynnu bod meysydd yn cael eu tynnu ymaith o'r cylch gorchwyl os yw asesiad risg yr archwiliwr yn nodi y dylai'r maes penodol hwnnw gael ei gynnwys. Yn hyn o beth, bydd raid i Archwilio Mewnol gynnwys meysydd y bydd yn rhaid eu cael er mwyn i Archwilio Allanol a chydranddeiliaid gael sicrwydd o'u gwaith.
- 1.5 Bydd y cyfarfod sgopio hefyd yn nodi'r person fydd yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt yn ystod yr archwiliad. Gall y Swyddog Cyswllt a enwebwyd fod yn uwch reolwr neu'n rheolwr o fewn y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes sy'n cael ei archwilio.
- 1.6 Bydd y cyfarfod sgopio hwn hefyd yn caniatáu i'r Archwiliwr a'r client nodi ffynonellau defnyddiol o wybodaeth y gall yr Archwiliwr eu defnyddio yn ystod yr adolygiad.
- 1.7 Y pwynt olaf i'w gytuno yn y cyfarfod sgopio fydd cyfnod amser yr archwiliad h.y. pa bryd y bydd yn dechrau, am ba hyd y disgwylir i'r gwaith barhau a pha bryd y bydd y cyfarfod cloi yn cael ei gynnal. Bydd y cyfnod amser yn dibynnu ar y math o archwiliad a pha mor ddyrws fydd y gwaith a wneir a rhaid pwysleisio na



fydd y dyddiau a benodir yn ddyddiau gwaith dilynol gan y bydd y gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith a phrosiectau archwilio eraill.

- 1.8 Ar gyfer archwiliadau o natur gorfforaethol fydd yn mynd i'r afael â materion sefydliad cyfan, bydd y memorandwm cychwynnol yn cael ei e-bostio i'r Prif Weithredwr ac ef/hi fydd yn penderfynu pa uwch reolwr fydd yn arwain ar ran y Cyngor. Cytunir ar y Daflen Cynllunio Archwiliad gyda'r uwch reolwr arweiniol hwn/hon.
- 1.9 Bydd canlyniadau'r cyfarfod sgopio yn cael eu rhoi i mewn ym mhapurau gweithio'r Archwiliad Mewnol ac yn cael eu rhoi i'r client fel Taflen Cynllunio Archwiliad (Briff Archwilio) **o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod sgopio**. Bydd y ddogfen yn nodi amcanion yr archwiliad a'r cyfyngiadau o ran ei sgôp. Bydd dyddiad dechrau gwaith maes yr archwiliad a'r dyddiad y rhagwelir y daw i ben hefyd yn cael eu cynnwys. Rhaid cytuno ar gynnwys y ddogfen hon a'i harwyddo gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r swyddog cyswllt a enwebwyd cyn dechrau'r gwaith maes.
- 1.10 Bydd y Daflen Cynllunio Archwiliad yn cynnwys manylion am yr wybodaeth a'r data allweddol y bydd yr Archwiliwr eu hangen ar ddechrau'r archwiliad. Fe all hyn gynnwys copiâu o nodiadau gweithdrefnau perthnasol, siartiau trefnu, gwahanol adroddiadau system, copiâu o gofnodion cyfarfodydd ac yn y blaen. Dylid neilltuo digon o amser rhwng dyddiad rhoi allan y Daflen Cynllunio Archwiliad a dyddiad gwaith maes yr archwiliad i ganiatáu amser i'r rheolwyr ganfod a choladu'r wybodaeth hon ar gyfer diwrnod dechrau'r gwaith maes.
- 1.11 Dylai rheolwr ddarparu gwybodaeth yn electronig lle mae hynny'n bosibl oherwydd bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynhyrchu ffeiliau a phapurau archwilio electronig lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

## **2. Gwneud yr Archwiliad**

- 2.1 Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal wedyn gydag unrhyw gwestiynau ac atborth cyffredinol yn cael eu cyfeirio i'r Swyddog Cyswllt.
- 2.2 Os bydd canfyddiadau cychwynnol yr archwiliad yn nodi bod risgiau neu broblemau arwyddocaol neu ffactorau annisgwyl, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r uwch reolwr perthnasol a bydd unrhyw waith ychwanegol yn cael ei drafod. Os nodir gwendidau rheoli arwyddocaol sy'n golygu bod angen gweithredu ar unwaith, yna bydd adroddiad **dros dro** yn manylu ar y gwendidau hyn yn cael ei gyhoeddi gan yr Archwiliwr Mewnol fydd hefyd yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i liniaru neu i ddileu'r gwendidau hynny.
- 2.3 Bydd yr Archwiliwr yn cwblhau profion archwilio a bydd y gwaith yn cael ei adolygu gan Reolwr yr Archwiliad neu Uwch Archwiliwr Mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl waith a nodwyd yn y Daflen Cynllunio Archwiliad wedi ei wneud yn foddhaol a bod safon yr archwiliad yn unol â gofynion y Llawlyfr Archwilio a'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.
- 2.4 Bydd yr Archwiliwr yn hysbysu'r Swyddog Cyswllt ynglŷn â chynnydd cyffredinol yr adolygiad gan nodi a oes pethau'n dal yr archwiliad yn ôl neu'n nodi a ydyw'n rhagweld y bydd oedi sylweddol am unrhyw reswm. Gellir dod i gytundeb wedyn ar ddyddiad newydd i'r cyfarfod cloi.

## **3. Cyfarfodydd Di-briffio**

- 3.1 Oni bai iddo gael ei nodi gan yr uwch reolwr perthnasol yn y cyfarfod cychwynnol, bydd cyfarfod di-briffio'n cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr, yr uwch reolwr ac unrhyw swyddog arall a enwebwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (fel arfer y Swyddog Cyswllt) **o fewn 7 diwrnod i gwblhau'r gwaith maes Archwilio** er mwyn trafod yr hyn a ganfuwyd, y casgliadau a'r argymhellion. Nid oes raid i'r uwch reolwr fynychu'r cyfarfod os yw ef/hi'n dymuno hynny ac fe all ddirprwyo'r broses di-briffio i'r Swyddog Cyswllt.
- 3.2 Bwriad y cyfarfodydd di-briffio yw rhoddi atborth ar ganlyniadau'r Archwiliad ac er mwyn i'r rheolwyr adolygu'r gwaith a wnaed ac i drafod unrhyw gamgymeriadau ffeithiol neu gamddealltwriaeth yn y gwaith a wnaed gyda'r Archwiliwr. Byddir hefyd yn defnyddio'r cyfarfodydd er mwyn adolygu'r argymhellion ac i sicrhau eu bod yn addas i'r ffordd y mae adrannau ac adeiniau unigol yn gweithredu. Dylai'r Archwiliwr sicrhau fod y ffeil archwilio ganddynt gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r hyn a ganfuwyd fel yn briodol. Dylid sicrhau yn y cyfarfodydd di-briffio nad oes unrhyw beth annisgwyl i'r rheolwyr yn yr adroddiadau drafft ac i wneud pethau'n haws i'r rheolwyr ymateb pan gaiff y drafft ei roi allan. Bydd arwydd ynglŷn â'r farn CAG terfynol ar gyfer yr adroddiad hefyd yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod di-briffio.
- 3.3 Os bydd y rheolwyr yn credu y gallant ddarparu gwybodaeth bellach ynglŷn â materion a godwyd yn y cyfarfod di-briffio, yna bydd Archwilio Mewnol yn cymryd y wybodaeth hon i ystyriaeth cyn llunio'r adroddiad drafft. Fodd bynnag, rhaid i'r wybodaeth ychwanegol fod yn berthnasol i'r materion a godwyd ac ar gael i Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau fod cydymffurfio gyda'r cyfnod amser y penderfynwyd arno i ryddhau'r adroddiad drafft (h.y. 14 diwrnod o ddyddiad y cyfarfodydd di-briffio).
- 3.4 Ar ddiwedd y cyfarfod di-briffio gofynnir i gynrychiolwyr y rheolwyr (Pennaeth Gwasanaeth ac/neu Swyddog Cyswllt) fydd yn bresennol i arwyddo'r daflen di-briffio baratowyd gan Archwilio Mewnol fydd yn dweud bod y materion ynddi wedi eu trafod yn y cyfarfod. Bydd cynrychiolydd y Rheolwyr yn arwyddo i gadarnhau'r materion a drafodwyd ac ni fydd angen unrhyw gytundeb ynglŷn â'u cywirdeb na'u cynnwys ar yr adeg hon.
- 3.5 Yn y cyfarfod cloi efallai y gwelir bod angen i'r Archwiliwr wneud gwaith pellach er mwyn gwirio rhai pwyntiau a godwyd neu i gyfeirio at wybodaeth bellach a nodwyd gan y rheolwyr. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Archwiliwr yn cynnal y profion ychwanegol fydd eu hangen ac yn adolygu canfyddiadau'r archwiliad fel bo angen. Bydd cyfle'n cael ei roi i'r client benderfynu a ydyw'n dymuno derbyn atborth ar y pwyntiau ychwanegol hyn trwy ail gyfarfod di-briffio neu trwy gyfrwng adroddiad drafft ffurfiol.

#### **4. Adroddiadau Drafft**

- 4.1 Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn rhyddhau adroddiad drafft o'r canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion, i'r unigolion a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad **o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod di-briffio cychwynnol.**
- 4.2 Ar gyfer yr archwiliadau a nodir fel archwiliadau corfforaethol, bydd y cyfarfod di-briffio yn cael ei gynnal rhwng yr Archwiliwr a'r uwch reolwr sy'n arwain. Nodir yma ei bod yn bosibl na fydd y swyddog hwn mewn sefyllfa i ymateb i'r holl

bwyntiau a godir ac y bydd angen ymgynghori gydag adrannau eraill. I bwrpas ymgynghori, caniateir rhagor o amser i ymateb i'r adroddiad drafft.

## 5. Darparu Ymatebion

- 5.1 Disgwylir i ymatebion y rheolwyr, yn cynnwys y cyfnodau amser ac enw'r gweithiwr cyfrifol a enwebwyd ar gyfer gweithredu, gael eu dychwelyd i'r Adain Archwilio **o fewn 14 diwrnod i ddyddiad rhyddhau'r adroddiad drafft**. Os nad yw'n bosibl cwblhau erbyn yr amser cau a osodwyd, fe ddylai'r uwch reolwr perthnasol neu'r Swyddog Cyswllt gysylltu gyda'r Rheolwr Archwilio i drafod y mater ac i gytuno ar ddyddiad cau newydd.
- 5.2 Bwriad y Rheolwr Archwilio yw cytuno ar yr holl adroddiadau a roddir allan ac fe gaiff cleientiaid bob cyfle a chefnogaeth i ddarparu ymateb. Er mwyn i'r broses hon weithio, mae'n bwysig bod y rhai fydd yn ymateb i'r adroddiad drafft yn bresennol yn y cyfarfod di-briffio.
- 5.3 Oherwydd bod gan y Rheolwr Archwilio gyfrifoldeb i hysbysu ac i roi sicrwydd i'r Swyddog A151 ar safon rheolau mewnol sy'n gweithredu o fewn y systemau, bydd **copi o adroddiadau drafft** unrhyw archwiliad y rhoddwyd iddo farn archwilio 'Sicrwydd Coch' dan **fethodoleg CAG Archwilio Mewnol** yn cael ei anfon at y Swyddog A151. Os bydd canfyddiadau'r archwiliad yn dangos gweithgareddau anghyfreithlon, neu weithgareddau allai gyfateb i gamweinyddu, bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at Swyddog Monitro'r Cyngor. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyfeirio adroddiadau at swyddogion eraill gyda chyfrifoldeb penodol dros feysydd yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad.
- 5.4 Rhaid trin adroddiadau archwilio fel dogfennau cyfrinachol i'r gwasanaeth ac yn y cyfnod drafft ni fydd yr Archwiliwr yn ei ryddhau i unrhyw berson arall ar wahân i'r rhai a nodir fel derbynwyr yr adroddiad drafft, oni bai fod cytundeb rhwng yr Archwiliwr a'r uwch reolydd priodol. Fodd bynnag, mae hawl gan y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro i gael copïau o adroddiadau drafft. Mewn achosion o'r fath byddir hefyd yn darparu copïau o unrhyw ymatebion fydd wedi eu derbyn gan Wasanaethau.
- 5.5 Lle bo'r canfyddiad penodol ac/neu argymhelliad yn ymwneud â systemau neu reoliadau mewnol sy'n cael eu gweithredu gan Wasanaeth(au) arall yna bydd y cefndir i hynny, a chopi o'r canfyddiad penodol ac/neu argymhelliad yn cael ei anfon at y Gwasanaeth hwnnw am ei ymateb. Bydd unrhyw ymatebion a geir yn cael eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad terfynol. Rhaid i'r gwasanaethau hyn barchu cyfrinachedd pob adroddiad archwiliad.
- 5.6 Dylai'r cleientiaid hefyd sicrhau nad oes neb yn cael gweld yr adroddiad ond y rhai a nodwyd fel derbynwyr yr adroddiad neu swyddogion eraill y bydd angen eu mewnbwn er mwyn i'r Gwasanaeth fedru darparu ymateb. Mae adroddiadau drafft yn cael eu cyfri fel gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac ni ddylai rheolwyr eu cylchredeg yn eang.
- 5.7 Byddir yn rhoddi pob cyfle a chymorth i'r client ddarparu ymateb i adroddiadau drafft ond oni cheir ymateb anfonir nodyn atgoffa terfynol at yr uwch reolwr perthnasol a byddir yn adrodd am unrhyw ddiffyg ymateb i'r Prif Weithredwr ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.

5.8 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi gofyn am i adroddiad gael ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd y Rheolwr Archwilio ar yr holl adroddiadau drafft na chafwyd ymateb iddynt o fewn 3 mis i'w rhyddhau.

## 6. Rhyddhau Adroddiadau Terfynol

6.1 **Bydd adroddiad terfynol yn cael ei ryddhau o fewn 7 diwrnod i dderbyn y cyfan o'r ymatebion gan y Rheolwyr.** Rhyddheir yr adroddiad terfynol i'r rhai a nodwyd ar y Daflen Cynllunio Archwiliad yn unig.

6.2 Er mai bwriad y Rheolwr Archwiliad yw cytuno ar gynnwys yr adroddiad terfynol gyda'r Adran Client efallai y bydd achlysuron lle nad yw hyn yn bosibl. Lle ceir achosion lle na fedrir cytuno ar yr adroddiad, bydd y rhesymau pam nad yw'r Adran Client yn cytuno gyda'r canfyddiadau, y casgliad neu'r argymhellion a wnaed yn cael eu nodi yn yr adroddiad. Bydd unrhyw anghytuno hefyd yn cael ei nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheolaethol lle bydd y Rheolwr Archwiliad yn rhoi manylion paham ei fod yn credu fod risg yn parhau os na cheir gweithredu rheolaethol i liniaru neu i gael gwared â'r gwendid a ganfuwyd.

6.3 Caiff adroddiadau terfynol eu rhoi i'r uwch reolwyr ac / neu'r Rheolwr(wyr) priodol a nodwyd ar gychwyn yr archwiliad yn y Daflen Cynllunio Archwiliad, a'r Swyddog Adran 151. Yn ychwanegol at hyn, caiff crynodebau o'r holl adroddiadau eu cynnwys yn adroddiadau cynnydd y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd Crynodeb Gweithredol o'r holl adroddiadau a gafodd farn 'Sicrwydd Coch' hefyd yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau cynnydd. Mae'r adroddiad cynnydd yn ddogfen gyhoeddus ac felly fe all y crynodeb gweithredol, gydag amser, fynd i'r parth cyhoeddus.

6.4 Bydd copïau o'r holl adolygiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau Sefydliad (nid cyfeiriadau) ar gael i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant dim ond iddynt ofyn i'r Rheolwr Archwilio amdanynt. Darperir adroddiadau Archwilio Mewnol er defnydd yr Aelodau'n unig ac ni ddylid eu cyhoeddi neu eu cylchredeg ymhellach.





6.5 Fe all yr Archwiliwr Allanol hefyd ofyn am gopïau o adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol fel y gall adolygu safon y gwaith a wnaed. Bydd y gwerthusiad hwn yn penderfynu a fydd yr Archwiliwr Allanol yn cymryd sicrwydd o waith Archwilio Mewnol.

6.6 **Barn Archwilio** – Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys barn archwilio CAG ar gyfer adolygiadau sy'n seiliedig ar risg ac ar systemau yn ei adroddiadau terfynol. Isod, gweler y fethodoleg ar gyfer y farn CAG.

CAG

Barn (YN SEILIEDIG AR  
RISG)

Barn (YN SEILIEDIG AR  
SYSTEMAU)

	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, ni fedr y Bwrdd gymryd sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p> <p>Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau fod y risg yn cael ei rheoli.</p>	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, ni fedr y Bwrdd gymryd sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p> <p>Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau fod y risg yn cael ei rheoli.</p>
	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol ond bod angen gweithredu er mwyn sicrhau fod y risg yn cael ei rheoli.</p>	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol ond bod angen gweithredu er mwyn sicrhau fod y risg yn y maes hwn yn cael ei rheoli.</p>
	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion a fydd yn ychwanegu at y tebygolrwydd y bydd yn risg yn digwydd oni chânt sylw.</p>	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion a fydd yn ychwanegu at y tebygolrwydd y bydd yn risg yn digwydd oni chânt sylw.</p>
	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p>	<p>Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n briodol, eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson a'u bod yn effeithiol.</p>

## 7. Rheoli Ansawdd

- 7.1 Yn unol â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Rheolwr Archwilio ddatblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cynnwys yr holl agweddau ar weithgareddau archwilio mewnol. Rhaid dylunio'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella fel y gellir gwerthuso cydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Diffiniad o Archwilio Mewnol a'r Safonau a gwerthuso a yw archwilwyr mewnol yn defnyddio'r Côd Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer eu gwella. (Safon PSIAS 1300)
- 7.2 Er mwyn caniatáu i safon y gwasanaeth gael ei fonitro ac i nodi gwelliannau y gellir eu cyflwyno, bydd holiadur ansawdd yn cael ei gyflwyno gyda'r adroddiad

terfynol. Dylid cwblhau a dychwelyd yr holiadur **o fewn 7 diwrnod i ryddhau'r adroddiad terfynol.**

## **8 Cwynion**

- 8.1 Cynigir trefn gwyno i gleientiaid ar gyfer amgylchiadau lle mae'r cleient yn ystyried mewn achos penodol bod safon y gwasanaeth a ddarparwyd yn is na'r disgwyl.
- 8.2 Mae disgwyl yn y lle cyntaf i'r achwynydd drafod y gŵyn yn anffurfiol gyda'r Rheolwr Archwilio i ganfod a oes modd datrys y sefyllfa yn foddhaol heb fod angen cymryd camau ffurfiol.
- 8.3 Lle nad yw'n bosib datrys y mater yn anffurfiol, dylai'r achwynydd (neu ei Reolwr Llinell) wneud cwyn ysgrifenedig i'r Rheolwr Archwilio yn egluro natur y gŵyn a disgwyliad y cleient. Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â gwaith y Rheolwr Archwilio, dylid cyflwyno'r gŵyn i'r Prif Weithredwr.
- 8.4 O fewn amser rhesymol, fel y cyflëir i'r achwynydd, bydd y Rheolwr Archwilio (neu'r Prif Weithredwr) yn ystyried y gŵyn ac, os bydd angen, yn trafod y mater gyda'r achwynydd, aelodau o staff y Gwasanaeth, neu unrhyw swyddog arall, fel yn briodol.
- 8.5 O fewn yr amser penodedig bydd y Rheolwr Archwilio (neu'r Prif Weithredwr) yn ymateb yn ysgrifenedig i'r gŵyn. Bydd yr ymateb yn egluro unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad i'r gŵyn neu'n egluro pam na fydd camau penodol yn cael eu cymryd.
- 8.6 Lle mae'r achwynydd, neu'i Reolwr Llinell, yn anfodlon gyda chanlyniad y gŵyn yn dilyn cam 8.5 uchod, gall yr achwynydd, neu'i Reolwr Llinell wneud apêl yn erbyn y penderfyniad. Dylid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr gan ddatgan y rhesymau am yr apêl, a bydd camau 8.4 a 8.5 yn cael eu dilyn gan y Prif Weithredwr wrth ddelio gyda'r apêl. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr ar yr apêl yn derfynol.

## **9. Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**

- 9.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn derbyn Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ym mhob un o'i gyfarfodydd ac yn Adroddiad Blynnyddol y Rheolwr Archwilio. Bydd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Archwilio fonitro perfformiad Archwilio Mewnol, yn ystod y flwyddyn, yn erbyn y Cynllun Gweithredu.
- 9.2 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi gofyn am wybodaeth am yr holl adroddiadau drafft nad ydynt yn derbyn ymatebion oddi wrth reolwyr o fewn 3 mis i gyflwyno'r drafft diweddaraf.
- 9.3 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant hefyd yn derbyn manylion am yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol gyhoeddwyd ac sydd wedi derbyn barn archwilio 'Sicrwydd Coch'.

## **10. Proses Tracio Argymhellion**

- 10.1 Mae'n ofynnol bod y broses Archwilio Mewnol yn mynd ymhellach na rhyddhau adroddiad terfynol i sicrhau bod yr argymhellion a gytunwyd arnynt yn cael eu

gweithredu o fewn y terfynau amser a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Adroddiad Terfynol. Ni welir gwelliant yn y fframwaith o reolaethau mewnol na gostyngiad i'r risgiau cysylltiedig oni fydd argymhellion yn cael eu gweithredu'n gyflawn.

10.2 Er mwyn tracio'r argymhellion a gytunwyd arnynt mewn adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal rhestr ar gyfer pob Adran o'r holl argymhellion ynghyd â'u dyddiad gweithredu. Pob chwarter blwyddyn, bydd disgwyl i'r Penaethiaid Gwasanaeth ddarparu hunan asesiad ar y cynnydd wnaed wrth weithredu ar argymhellion sydd wedi cyrraedd y dyddiad gweithredu yn y chwarter blaenorol.

10.3 Bydd statws hunan asesiad pob argymhelliad yn cael ei gategoreiddio fel a ganlyn:

1 = Wedi'i weithredu

2 = Yn cael ei weithredu

3 = Heb ei weithredu – dyddiad newydd ar gyfer gweithredu wedi'i benodi;

4 = Wedi'i ddisodli

10.4 Bydd canlyniadau'r hunan asesiad yn cael eu defnyddio gan Archwilio Mewnol i sefydlu barn ar y cynnydd wnaed gan bob un o'r adrannau wrth weithredu'n gorfforaethol yr argymhellion y cytunwyd arnynt. Bydd data ar ffurf graff hefyd yn cael ei gyflwyno i uwch reolwyr ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn rheolaidd fel rhan o Adroddiadau'r Rheolwr Archwilio ar Gynnydd o ran Archwilio Mewnol. Bydd y farn hon yn seiliedig ar y fethodoleg ganlynol:

Cynnydd yng ngweithrediad yr argymhellion	Nifer cyffredinol yr argymhellion wedi'u gweithredu	Ystyriaeth o argymhellion sylfaenol	Ystyriaeth o argymhellion arwyddocaol	Ystyriaeth o argymhellion yn haeddu sylw
<b>Da</b>	80% +	Dim heb eu gweithredu	Argymhellion arwyddocaol heb eu cyflawni yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd	Argymhellion yn haeddu sylw heb eu cyflawni yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd
<b>Rhesymol</b>	50 – 80%	Argymhellion sylfaenol heb eu cyflawni yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd	Argymhellion arwyddocaol heb eu cyflawni yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd	Argymhellion yn haeddu sylw heb eu cyflawni yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd
<b>Ychydig</b>	< 50%	Cynnydd anfodddhaol wedi'i wneud	Cynnydd anfodddhaol wedi'i wneud	Cynnydd anfodddhaol wedi'i wneud

10.5 Bob blwyddyn, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r broses Tracio Argymhellion. Bydd yr adolygiad yn cael ei gyflawni ar sail sampl corfforaethol cynrychiadol o argymhellion sydd wedi cael eu hunanasesu fel rhai

sydd wedi cael eu gweithredu, sydd wrthi'n cael eu gweithredu neu sydd wedi cael eu disodli yn ystod y cyfnod.

Ar gyfer pob argymhelliad o fewn y sampl bydd Archwilio Mewnol yn ymweld â'r adran berthnasol ac yn ceisio tystiolaeth i gadarnhau'r statws hunan-asesiedig. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio gyda barn gyffredinol i gadarnhau os gall y Pwyllgor Archwilio gymryd sicrwydd ai peidio o'r adroddiadau hunanasesu a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

## **ARCHWILIADAU MEWN SEFYDLIADAU**

Gydag Archwiliadau Sefydliad byddir yn gwneud gwaith archwilio mewn sefydliadau unigol o fewn y Cyngor (Ysgolion, Cartrefi Henoed a Phlant, Canolfannau Gofal Dydd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac yn y blaen). Mae'r archwiliadau hyn yn dilyn rhaglen archwilio safonol fydd wedi ei datblygu ar gyfer pob sefydliad.

### **1. Paratoi ar gyfer yr Archwiliad**

- 1.1 Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd copi o'r rhaglen archwilio berthnasol yn cael ei hanfon i'r Pennaeth Gwasanaeth. Dylai'r Pennaeth Gwasanaeth gysylltu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau i'r rhaglen.
- 1.2 Cyn dechrau pob archwiliad, byddir yn cysylltu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth a Phennaeth y Sefydliad a'u hysbysu bod yr Archwiliad wedi'i gynllunio. Bydd trefniadau ar gyfer ymweld â'r sefydliad yn cael eu gwneud gyda Phennaeth y Sefydliad unigol.

### **2. Cynnal yr Archwiliad**

- 2.1 Bydd y gwaith archwilio yn cael ei wneud yn y dull arferol gyda'r bwriad o wneud y gwaith mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosibl o fewn y sefydliad.
- 2.2 Ar ddiwedd yr ymweliad bydd cyfarfod di-briffio'n cael ei gynnal gyda Phennaeth y Sefydliad i drafod canfyddiadau'r archwiliad.

### **3. Cytuno ar Adroddiadau Drafft a Darparu Ymateb**

- 3.1 Oherwydd bod angen i adroddiadau archwiliad ddilyn proses o siecio mewnol o fewn yr Adain Archwilio nid yw'n bosibl i adroddiadau archwilio "drafft" gael eu darparu i reolydd unigol y sefydliad yn ystod yr ymweliad, ac nid yw chwaith yn ymarferol i archwilwyr ddychwelyd i sefydliadau i drafod yr adroddiad "drafft" (byddai'n gostus, yn mynd ag amser ac yn tarfu ar y sefydliadau). Dim ond mewn achosion eithriadol, lle bo unrhyw waith ychwanegol wnaed yn dilyn yr ymweliad neu'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio yn golygu fod canfyddiadau'r adroddiad drafft yn sylweddol wahanol i'r rhai drafodwyd yn y cyfarfod cloi, fydd yr Archwiliwr yn dychwelyd i'r sefydliad i drafod yr adroddiad drafft. Felly yn y mwyafrif o'r achosion, bydd gwaith archwilio sefydliadau yn dilyn y broses



bresennol lle bydd adroddiad drafft yn cael ei anfon at uwch reolydd perthnasol y Gwasanaeth neu reolydd y sefydliad unigol.

- 3.2 Rhoddir 14 diwrnod i'r Uwch Reolydd yn y Gwasanaeth neu'r rheolwr sefydliad unigol ddarparu ymateb i'r materion a godir yn yr adroddiad drafft.
- 3.3 Mae'r broses ar gyfer diwygio a chytuno ar adroddiadau yr un fath i bob adroddiad archwilio.
- 3.4 Byddir yn delio gyda diffyg ymateb yn yr un dull â phob adroddiad arall h.y. fe roddir pob cyfle a chymorth i'r client ddarparu ymateb ond os na cheir ymateb byddir yn rhoddi nodyn atgoffa terfynol wedi'i gopïo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a byddir yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant am unrhyw ddiffyg ymateb.

#### **4. Rhyddhau Adroddiadau Terfynol**

- 4.1 Bydd y broses ar gyfer rhyddhau adroddiadau terfynol yr un fath ag ar gyfer pob adroddiad arall.

#### **5. Rheoli Ansawdd**

- 5.1 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ansawdd yr un fath ag ar gyfer pob adroddiad arall.

---

## CRYNODEB DRAFFT O BROSESAU ARCHWILIO MEWNOL A RHAGLENNI AMSER

Cyf	Disgrifiad o'r Broses	Pryd	Person Cyfrifol	Cyfeiriad yn y Protocol
1	Cynllunio Archwiliad Blynyddol	Chwefror / Mawrth	Rheolwr Archwilio / Penaethiaid Gwasanaeth	1.1 to 1.2
2	Memorandwm Rhybudd Cychwynnol	O leiaf 7 niwrnod cyn dyddiad arfaethedig y cyfarfod sgopio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	1.3
3	Cyfarfod Sgopio	O leiaf 7 niwrnod cyn rhyddhau Taflen Cynllunio Archwiliad	Rheolwr Archwilio / Penaethiaid Gwasanaeth	1.4
4	Rhyddhau Taflen Cynllunio Archwiliad	O fewn 7 niwrnod i'r cyfarfod sgopio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	1.9
5	Llunio a chasglu gwybodaeth a data sydd eu hangen gan yr Archwiliwr ac wedi eu nodi yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Cyn dyddiad cychwyn y gwaith maes a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	1.10
6	Cynnal yr archwiliad ac archwilio'r canlyniadau o fewn Archwilio Mewnol	O fewn y nifer o ddyddiau a nodir yn y Daflen Cynllunio Archwiliad	Archwiliwr Mewnol / Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	2.3
7	Cyfarfod Di-Briffio	O fewn 7 niwrnod i gwblhau'r gwaith maes Archwilio	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol / Archwiliwr / Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	3.1 to 3.5
8	Rhyddhau'r adroddiad drafft	O fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod di-briffio cychwynnol	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	4.1 to 4.2
9	Ymatebion Rheolwyr	Adran o fewn 28 diwrnod i ddyddiad rhyddhau'r adroddiad drafft	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	5.1
10	Rhyddhau'r adroddiad terfynol	O fewn 7 niwrnod yn dilyn derbyn yr holl ymatebion gan reolwyr	Rheolwr Archwilio / Uwch Archwiliwr Mewnol	6.1
11	Cwblhau a dychwelyd holiadur Ansawdd Archwiliad Mewnol	O fewn 7 niwrnod i ryddhau'r adroddiad terfynol	Penaethiaid Gwasanaeth / Swyddog Cyswllt Enwebedig	7.2

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>CYNGOR SIR</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>EBRILL 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2014/14</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ER GWYBODAETH</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>DERBYN YR ADRODDIAD</b>

### **Rhagarweiniad**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor statudol o'r Cyngor ac mae arno wyth Aelod etholedig a dau Aelod Lleyg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor, yr amgylchedd rheoli cysylltiedig a digonolrwydd y fframwaith rheoli risg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am wneud gwaith sgrwtini annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr Awdurdod (i'r graddau y mae'n effeithio ar ba mor agored yw'r awdurdod i risgiau ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli), a goruchwylio'r broses adrodd ariannol ac adolygu'r cyfrifon blynyddol a'u cymeradwyo i'r Cyngor.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yw Trefor Lloyd Hughes a'r Is-Gadeirydd yw'r Cynghorydd John Griffiths.

Yn unol â'i gylch gorchwyl, rhaid i'r Pwyllgor baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ei weithgareddau ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwnnw.

### **Cyfarfodydd**

Yn y flwyddyn ddinesig, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn llawn wyth gwaith ac mae'r ffigyrau presenoldeb ar gyfer y pum cyfarfod ar gael er gwybodaeth yn Atodiad A.

Roedd y cyfarfodydd cyffredin yn dilyn calendr y Pwyllgor Archwilio ac ystyriwyd, ymysg busnes arferol y Cyngor, adroddiadau gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol, y datganiad cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr allanol ar y datganiad. Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gwaith ar Reoli'r Trysorlys a'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys, adroddiad ar y fframwaith a'r gofrestr rheoli risg gorfforaethol, adroddiadau gwaith ar y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll a Llygredd. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau penodol ar adolygiad o'r Uned Cynnal

Adeiladau, trefniadau ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, canlyniadau'r Gwiriad Ffitrwydd Caffael, Llythyr Gwella Blynyddol SAC, trefniadau Gweithwyr Asiantaeth, cynnydd ar gasglu dyledion corfforaethol, adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth ar reoli data, adroddiad blynyddol Cymunedau'n Gyntaf, trefniadau Atal Twyll a Chronfa Bensiwn Gwynedd. Ceir manylion pellach am y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn y tabl yn Atodiad B.

Cwblhawyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon wedi ei archwilio ar gyfer 2013/14 erbyn y dyddiad cau, sef 30 Medi 2014 a'i argymhell gan y Pwyllgor i'w gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi rheolwyr gyda mesurau i gryfhau'r swyddogaeth gyllid ymhellach ac i sicrhau fod modd cynnal y cynnydd presennol yn y dyfodol.

### **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mabwysiadodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013/14 yn unol â'r gofynion statudol. Cynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar ôl ymgynghori'n eang ac adolygu'r trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Yr un modd â Datganiad 2012/13, roedd Datganiad 2013/14 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, roedd y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i adlewyrchu rhai gwendidau o ran trefniadau llywodraethu. Cynhyrchwyd Cynllun Gwella er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau hyn.

### **Y Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gweithio o fewn ei gylch gorchwyl sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl Pwyllgorau Archwilio o ran monitro Rheoli Risg, Llywodraethu a Rheolaeth Fewnol yn y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd eto eleni gan ddefnyddio rhestr wirio a gafwyd o ganllawiau ymarferol CIPFA 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities' ac mae canlyniad yr hunanasesiad hwn wedi llywio'r rhaglen hyfforddi a'r camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr hunanasesiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2015 ynghyd â Chynllun Gweithredu ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau ac adroddir yn ôl ar gynnydd i'r Pwyllgor yn rheolaidd yn ystod 2015-16.

### **Hyfforddiant**

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd Aelodau'r Pwyllgor gyfres o sesiynau Cyllid ac Archwilio gan gynnwys sesiynau mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon, Trefniadau Atal Twyll, Rheoli Trysorlys, Rheoli Risg a seminar a gweithdy ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Cynllunio.

### **Effeithiolrwydd**

Mae'r aelodau Pwyllgor Archwilio yn cymryd eu rôl mewn perthynas â llywodraethu a stiwardiaeth o ddifrif. Maent yn cydnabod mai Pwyllgor anwleidyddol yw hwn ac, o'r herwydd, swyddogaeth y Pwyllgor yw dal rheoleiddwyr a swyddogion yn atebol a chyflawni'r

dyletswyddau mewn perthynas â rheoleiddio'r fframweithiau rheoli risg, llywodraethu a sicrwydd yn y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd i gael sicrwydd ynghylch meysydd gweithgaredd allweddol ac mae hefyd yn cwblhau hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ei hun.

Cynhaliwyd hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor, fel y disgrifiwyd eisoes, ym mis Ionawr 2015 i adolygu cynnydd yn 2014/15 yn erbyn rhestr wirio CIPFA mewn perthynas ag arfer dda ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

Mae trafodaethau yn y gweithdy wedi dwyn sylw at nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach ac mae cynllun gwella wedi cael ei baratoi i'w ystyried a'i fonitro'n barhaus gan y Pwyllgor yn 2015/16. Un maes a nodwyd ar gyfer ei wella yn 2015/16 oedd yr angen i godi proffil y Pwyllgor Archwilio a gwneud cydranddeiliaid yn fwy ymwybodol o'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud.

### **Seminar Archwilio Mewnol**

Yn ychwanegol at y Gweithdy Hunanasesu blynyddol, cynhaliwyd Seminar o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2014 fel rhan o raglen wella'r Cyngor. Cynhaliwyd y seminar er mwyn asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ac i nodi unrhyw newidiadau a oedd yn haeddu sylw o ran Cylch Gorchwyl neu weithgareddau'r Pwyllgor. O ganlyniad i'r Seminar hwn, cytunodd y Pwyllgor i adolygu a diweddarau ei gylch gorchwyl ac argymhell i'r Cyngor y dylid newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant er mwyn dwyn mwy o sylw at faterion llywodraethiant ac i ddatblygu rôl y Pwyllgor o ran ymgysylltu gyda rheoleiddwyr eraill ac eithrio Archwilwyr (oherwydd bod lefel effeithiol o ymgysylltiad gydag Archwilwyr eisoes).

### **Archwilwyr Allanol**

Mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) er bod rhan o'r gwaith, sef agweddau ariannol yr archwiliad a rhywfaint o waith perfformiad, yn cael ei wneud gan PwC ar gyfer yr archwilydd penodedig yn SAC. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan PwC ac mae diweddariad yn cael sylw ym mhob cyfarfod.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn cael diweddariadau rheolaidd gan SAC ar y Rhaglen Waith Perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn diweddariadau gan SAC ar y Rhaglen Asesu Gwelliant gan gynnwys Llythyrau Asesu Gwelliant 1 a 2 yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Cyngor i sicrhau bod yr holl adroddiadau allanol yn cael sylw, un ai gan y Pwyllgor Archwilio neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Ynghyd â diweddariadau ar y Rhaglen Gwaith Perfformiad, mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn diweddariadau gan PwC ar y gwaith archwilio ariannol sy'n cael ei wneud. Mae diweddariadau eleni wedi cynnwys y cynllun gwaith ac amserlen y gwaith.

### **Archwilio Mewnol**

Mae gan y Cyngor Dîm Archwilio Mewnol ei hun a reolir tan 31 Mawrth 2015 a reolir dan gcontract gyda Baker Tilly Cyf. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014, cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredol Mewnol am 2014/15. Adroddir ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol gan y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio i bob un o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor fel rhan o adroddiadau gwaith Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol.

Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys manylion ynghylch adolygiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ynghyd â lefelau sicrwydd a roddir. Dros y flwyddyn, mae'r rhain yn datblygu i fod yn asesiad o gryfder fframwaith rheolaeth fewnol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Adroddiadau Cynnydd ar Archwilio Mewnol wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch pob adolygiad a gynhaliwyd gan gynnwys manylion am y casgliadau allweddol yn codi o'r gwaith a wnaed.

Darperir datganiad cyffredinol ar reolaeth fewnol yn adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio ac yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

### **Rheoli Risg**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu gofynion y Mesur Lleol.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rheoli Risg yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn a bydd Rheoli Risg a derbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol bellach yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor o 2015/16 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried mai ei rôl allweddol ef o ran y broses Rheoli Risg yw bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, y prosesau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad.

### **Atal Twyll**

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn y Polisi Blynyddol ar gyfer Atal Twyll a Llygredd; Adroddiad ar gyfer 2013/14 ym mis Rhagfyr 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ynghylch cyfranogiad y Cyngor yn y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol; fodd bynnag, ni chyhoeddwyd unrhyw ganlyniadau yn 2013/14. Mae'r adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol hefyd wedi cynnwys cyfeiriad ar nifer o gyfeiriadau a arweiniodd at gyhoeddi adroddiadau ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Derbyniodd y Pwyllgor yn ogystal, adroddiad yn manylu ar y newidiadau i drefniadau Atal Twyll y Cyngor o fis Tachwedd 2014 wedi i Wasanaeth Sengl yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Ymchwilio i Dwyll (SFIS) gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ymchwilio i'r holl achosion o dwyll "budd-dal" sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn. Arweiniodd hyn at drosglwyddo un o

ymchwilydd twyll yr awdurdod i'r tîm SFIS a'r ymchwilydd arall yn cael ei benodi i swydd newydd sef Swyddog Atal Twyll Corfforaethol (SATC) yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn Chwefror 2015 yn nodi ei swyddogaeth a'r rhaglen waith gychwynnol. Roedd y rhaglen waith gychwynnol a gyflwynwyd yn cynnwys yr asesiad risg ffurfiol cyntaf o drefniadau Atal Twyll yn y Cyngor. Bydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar ganlyniadau ei waith yn ystod 2015/16.

### **Cynlluniau i'r Dyfodol**

Yn ogystal â'i fusnes rheolaidd, bydd y Cyngor yn parhau gyda'i raglen ddatblygu, a rhoddir siâp ar y rhaglen ddatblygu honno drwy ddefnyddio'r hunanasesiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r newidiadau'r i drefniadau atal twyll y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o ddigwyddiadau hyfforddi a fydd yn ymwneud â'i weithgareddau yn 2015/16.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â Rheoli Risg yn ystod 2015/16 a bydd yn edrych ar fabwysiadu dull o fedru asesu'n barhaus ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd.

Mae rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Archwilio ar gael yn Atodiad C.

### **Sylwadau'r Cadeirydd**

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r gweithwyr hynny sydd wedi mynychu a chyfrannu cymaint.

Hoffai'r Cadeirydd achub ar y cyfle i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor sy'n fwy perthnasol hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni o ran sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg yn gadarn ac y ceir gwerth am arian.

Mae'r Pwyllgor yn ymrwymo i barhau i weithio gyda gweithwyr y Cyngor i gefnogi gwelliant parhaus yng ngweithgareddau'r Cyngor yn 2014/15.

**Y CYNGHORYDD TREFOR LLOYD HUGHES**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**Drafft – 31 Mawrth 2014**

## PWYLLGOR ARCHWILIO - CYFARFODYDD A FNYNCHWYD - 2014-15

Members	% Presenoldeb Cymwys - Cyfarfodydd Rhestredig	Cyfarfod 10-04-2014	Cyfarfod 30-04-2015	Cyfarfod 22-07-2014	Cyfarfod 23-09-2014	Cyfarfod 07-11-2014	Cyfarfod 10-12-2014	Cyfarfod 09-02-2015	Cyfarfod 23-02-2015	Nifer y Cyfarfodydd a fynychwyd
Cllr. Trefor Lloyd Hughes (Chair)	88%	Do	Ymddiheuriad	Do	Do	Do	Do	Do	Do	7
Cllr. John Griffiths (Vice Chair)	100%	Do	Do	Do	Do	Do	Do	Do	Do	8
Cllr. Robert Llewelyn Jones	100%	Do	Do	Do	Do	Do	Do	Do	Do	8
Cllr. Jim Evans	50%	Ymddiheuriad	Do	Ymddiheuriad	Do	Do	Do	Ymddiheuriad	Ymddiheuriad	4
Cllr. Dafydd Rhys Thomas	38%	Ymddiheuriad	Ymddiheuriad	Ymddiheuriad	Do	Ymddiheuriad	Ymddiheuriad	Do	Do	3
Cllr. Vaughen Hughes	25%	Ymddiheuriad	Heb fynychu	Heb fynychu	Ymddiheuriad					1
Cllr. Richard Owain Hughes	50%	Ymddiheuriad	Do	Ymddiheuriad	Do	Ymddiheuriad	Ymddiheuriad	Do	Do	4
Mrs Sharon Warnes	63%	Do	Do	Do	Do	Ymddiheuriad	Do	Heb fynychu	Ymddiheuriad	5
Mr Richard Barker	75%	Do	Do	Do	Do	Ymddiheuriad	Do	Heb fynychu	Do	6
Cllr. Alun Mummery	100%					Do	Do	Do	Do	4
Cllr. Jeff Evans	50%	Heb fynychu	Heb fynychu	Do	Do	Do	Ymddiheuriad			3
Cyfanswm	66%	5	7	6	9	6	7	6	7	53



**PWYLLGOR ARCHWILIO – CYNNYDD AR FATERION A GODWYD YN****2014-15****DIWEDDARIAD DIWETHAF: 04 Mawrth 2015**

Cyf	Dyddiad codi'r mater	Cyf y Cofnod	Mater a Godwyd	Camau Gweithredu angenrheidiol	Yn gyfrifol am weithredu	Angen gweithredu erbyn	Statws Cyfredol	Statws CAG
1	10/04/2014	Eitem 3	<b>UCA Tai</b> - Adolygiad o'r UCA gan y PG. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.	Pennaeth Gwasanaethau Tai i gynnwys yn y Newyddlen/Bwletin i denantiaid wybodaeth ynghylch faint y mae'n gostio i'r Cyngor drwsio tai Cyngor nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn.	Pennaeth Gwasanaeth Tai	30/04/2014	Cwblhawyd	<b>GWYRDD</b>
2	10/04/2014	Eitem 4	<b>Aseiad Corfforaethol</b> –Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gweledol gan y DBW mewn perthynas ag Aseiad Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhelir yn Chwefror 2015 fel rhan o raglen gylchol 4 blynedd Swyddfa Archwilio Cymru o asesiadau corfforaethol awdurdodau lleol.	Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi gwybod i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am y cynnydd o ran rheoli prosiect mewn paratoad ar gyfer yr Aseiad Corfforaethol.	DBW		Gweler 22/09/14 Eitem 12	<b>GWYRDD</b>
3	10/04/2014	Eitem 5	<b>Gwiriad Ffitrwydd Caffael</b> - Cyflwynwyd crynodeb o adolygiad ffitrwydd KPMG o drefniadau caffael yng Nghyngor Sir Ynys Môn er gwybodaeth. Dywedodd yr Aelodau y buasant wedi dymuno cael gweld mwy o fanylion adroddiad KPMG o ran yr agweddau a gafodd eu harchwilio a'r canfyddiadau arnynt gan fod caffael yn faes y mae'r Pwyllgor â diddordeb ynddo ac yn un a nodwyd fel maes y mae angen ei gryfhau.	Bod y Pwyllgor yn ailymgynnull cyn diwedd Ebrill i roi sylw pellach i argymhellion adolygiad KPMG o drefniadau caffael a'r ymateb iddynt.	Pwyllgor	30/04/2014	Cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar 30/04/14 i gael adroddiad manwl ar Wiriad Ffitrwydd Caffael KPMG.	<b>GWYRDD</b>
4	30/04/2014	Eitem 1	<b>Cyfarfod Arbennig – Gwiriad Ffitrwydd Caffael</b> – Cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar 10/04/14 i fynd drwy'r Gwiriad Ffitrwydd yn fanwl ac i gael gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad.	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i ddiweddarau'r Pwyllgor Archwilio'n rheolaidd ar y cynnydd o ran sicrhau arbedion yn gysylltiedig â datblygu a gwella'r trefniadau caffael corfforaethol.	Pennaeth Adnoddau	Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor	Nid adroddiadau hyn wedi cael eu cyflwyno hyd yma (20/01/15)	<b>COCH</b>

5	22/07/2014	Eitem 3	<b>Adolygiad o'r Datganiad Cyfrifon 2013-14</b> – Adolygodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol drafft.	Swyddog Adran 151 i ddarparu – <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad cynnydd ar y prosiect a rhoi sylw i sefyllfa'r Cyngor o ran ei ddyledion a'i falansau.</li> <li>• Adroddiad ar amrediad a lefel cronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor a'r rhesymeg y tu ôl iddynt.</li> </ul>	Swyddog A151	30/09/2014	Gweler 23/09/14 Eitemau 7 & 8 isod	<b>GWYRDD</b>
6	22/07/2014	Eitem 7	<b>Rheoli Risg</b> - Adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol gyfredol. Mynegwyd siom nad oes unrhyw gynnydd gweladwy wedi cael ei wneud ers y diweddariadau diwethaf o ran symud ymlaen i ledaenu arferion rheoli risg ar hyd a lled yr awdurdod a gofynnwyd beth oedd y disgwyliadau o ran sefydlu arferion rheoli risg yn gadarn yn y Cyngor. Mynegwyd pryder penodol ynghylch risg YM31 - Diogelu Data a'r ffaith ei bod yn parhau i fod yn risg uchel er bod y Pwyllgor hwn wedi dwyn sylw ati fel maes yr oedd angen rhoi sylw brys iddi a'i gwella. Awgrymwyd bod cyfrifoldeb am sicrhau fod y mater hwn yn cael sylw a'i ddatrys yn cael ei gymryd ar lefel gorfforaethol.	Y Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth.	DBW	30/09/2014	Gweler 22/09/14 Eitem 11 isod	<b>GWYRDD</b>
7	22/07/2014	Eitem 8	<b>Adroddiad Gwella Blynyddol</b> - Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad yn cynnwys gwerthusiad yr Archwilywyr Allanol o ba mor ddau y bu i Gyngor Sir Ynys Môn gyflawni o ran ei gynlluniau gwella yn ystod 2012/13. Cadarnhaodd Mr Andy Bruce fod yr adroddiad yn gyffredinol yn un cadarnhaol ac yn tystio i gynnydd parhaus yr Awdurdod yn y rhan fwyaf o'r meysydd blaenoriaeth yn amodol ar yr heriau o ran sicrhau capasiti a sefydlogrwydd yn y gwasanaeth cyllid corfforaethol a rhoi sylw i'r gwendidau yn rheolaeth y system ledjer ariannol.	Dim gweithredu pellach	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
8	22/07/2014	Eitem 9	<b>Pryderon Archwilio Mewnol</b> - dygwyd sylw at y pryderon cyfredol ynghylch rheoli risg, rheoli gwybodaeth, llywodraethiant a'r fframwaith caffael corfforaethol (rhan 6 yr adroddiad) sy'n arwydd o wendid uwch reolaeth sylfaenol ar draws nifer o gategoriâu gwasanaeth o ran gwerthfawrogi a gweithredu ar bolisiau, rheoliadau, prosesau a phrotocolau yn ôl yr angen neu'n unol ag argymhellion archwilio cyfredol ac/neu flaenorol ac i ledaenu'r gwerthfawrogiad hwnnw yn ehangach i staff yr adrannau. Awgrymwyd y dylid dwyn y diffyg hwn at sylw Uwch Arweinyddion/Rheolwyr a sicrhau fod y Pwyllgor yn cael diweddariad ar y cyfan o'r meysydd hynny.	Y Dirprwy Brif Weithredwr i gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio yn unol â'r penderfyniad uchod ynghyd â gwybodaeth ynghylch cyfrifoldebau uwch reolwyr.	DBW	30/09/2014	Gweler 22/09/14 Eitem 13	<b>GWYRDD</b>

9	22/07/2014	Eitem 10	<b><u>Gweithwyr Asiantaeth</u></b> - Cyflwynodd Archwilio Mewnol adroddiad a oedd yn nodi casgliadau adolygiad archwilio a wnaed mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r polisi sy'n ymwneud â chyflogi staff asiantaeth/ymgyngorwyr a digonolrwydd y rheoliadau mewnol mewn perthynas â hyn a chydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau hynny.	Y Rheolwr Archwilio Mewnol i ddarparu ar gyfer y Pwyllgor ddadansoddiad pellach o'r contractwyr a'r staff hunangyflogedig a gyflogir gan y Cyngor.	Rheolwr Archwilio	30/09/2014	Eglurodd y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod dilynol bod y modd yr oedd gwariant ar staff wedi ei godio ar y ledjer yn golygu nad oedd modd cywain manylion pellach a bod y diffyg hwn wedi cael ei nodi yn yr adroddiad gwreiddiol.	<b>GWYRDD</b>
10	22/07/2014	Eitem 3	<b><u>Datganiad Cyfrifon</u></b> - Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys y cyfrifon terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14. Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys Cronfa Bensiwn Gwynedd.	Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i drefnu i Adroddiad Blyneddol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2013/14 fod ar gael i aelodau'r Pwyllgor Archwilio	Swyddog A151	23/02/2015	Cysylltwyd gyda rheolwr cronfa pensiwn Gwynedd ond gwrthododd fynychu – cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Aelod Portffolio yn cyflwyno diweddariad yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2015.	<b>AMBR</b>
11	23/09/2014	Eitem 7	<b><u>Cynnydd o ran Casglu Dyledion</u></b> - Nodwyd yn yr adroddiad y meysydd allweddol lle gwnaed ymdrechion i ganolbwyntio ar falans y dyledwyr a'r canlyniadau hyd yma, yr adnoddau ychwanegol a ddefnyddiwyd lle yr oedd angen hynny a'r camau y bwriedir eu cymryd yn y dyfodol. Roedd Atodiad A, B a C yr adroddiad yn nodi'r gyfradd gasglu gyffredinol ar gyfer pob blwyddyn ar gyfer yr holl fathau o ddyledion a dargedwyd.	Dim gweithredu pellach.	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
12	22/09/2014	Eitem 8	<b><u>Cronfeydd wrth Gefn a Balansau'r Cyngor</u></b> - Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog A151 Dros Dro mewn perthynas â'r sefyllfa gyfredol o ran Cronfeydd Refeniw a Chyfalaf Wrth Gefn.	Dim gweithredu pellach.	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
13	22/09/2014	Eitem 9	<b><u>Adroddiad Blyneddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2013-14</u></b> - Rhoes yr adroddiad ddadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn ystod y flwyddyn ynghyd â Strategaeth Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol a Dogfen Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.	Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy i gymryd camau i ailsefydlu'r rhestr o unigolion a all fod yn beryglus.	Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy	31/12/2014	Angen diweddariad gan y Gwasanaeth	<b>AMBR</b>

14	22/09/2014	Eitem 10	<b>Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Crynodeb Perfformiad</b> – Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad gan Bennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro mewn perthynas â chanlyniadau'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan Swyddfa Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ystod 2013/14. Cyflwynwyd crynodeb OGCC o berfformiad dan Atodiad 1 yr adroddiad.	Dim angen gweithredu ymhellach.	D/B	D/B	D/B	GWYRDD
15	22/09/2014	Eitem 11	<b>Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth</b> - Daeth gwaith y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth a sefydlwyd i gyflawni'r Cynllun Gweithredu a luniwyd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn dilyn archwiliad ei Swyddfa o'r Cyngor yn 2013, i ben ar 4 Medi 2014. Mewn Adroddiad Amlygu a oedd ynghlwm, manylwyd ar yr holl weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod oes y prosiect. Bydd grŵp newydd - y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn awr yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am unrhyw faterion sy'n parhau i fod angen sylw o waith y Bwrdd Prosiect ac yn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i fonitro a gwella safonau o ran llywodraethu gwybodaeth.	Dim angen gweithredu ymhellach	D/B	D/B	D/B	GWYRDD
16	22/09/2014	Eitem 12	<b>Asesiad Corfforaethol</b> – bydd y prif waith maes mewn perthynas â'r Asesiad Corfforaethol yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2015. Mae'r Awdurdod yn cael cefnogaeth gan CLILC i baratoi ar gyfer y meysydd sydd wedi eu targedu drwy gyfrwng sesiynau briffio. Mae pedair sesiwn wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnos hon a chynhelir un ohonynt gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini er mwyn ystyried ychwanegu gwerth drwy sgriwtini. Mae sesiwn friffio wedi cael ei threfnu'n benodol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r asesiad corfforaethol. Mae gwaith hefyd wedi cael ei gomisiynu ar reoli risg a bydd sesiwn yn cael ei threfnu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Sgriwtini gyda'i gilydd er mwyn egluro cyfrifoldebau o ran rheoli risg.	Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi diweddariad pellach i'r cyfarfod nesaf ar y paratodau ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.	DBW	31/12/2014		
17	22/09/2014	Eitem 13	<b>Pryderon Archwilio Mewnol</b> -Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan reolwyr a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob maes Archwilio Mewnol a oedd yn parhau i beri pryder fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i'r cyfarfod diwethaf.	Dim angen gweithredu ymhellach	D/B	D/B	D/B	GWYRDD

18	10/12/2014	Eitem 3	<b>Adroddiad Cynnydd Gyntaf a Chyfrifon Cymunedau'n Gyntaf</b> – Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Cydlynnydd Grantiau yn cynnwys cyfrifon Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn Cyf ar gyfer 2013/14 ynghyd â manylion am gyllid grant y sefydliad ar gyfer 2013/14 a'i gyllideb ar gyfer 2014/15.	Dim angen gweithredu ymhellach	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
19	10/12/2014	Eitem 4	<b>Rheoli Risg</b> – Cafwyd manylion yn yr adroddiad am ganlyniadau a chanfyddiadau adolygiad o'r polisiau, gweithdrefnau ac arferion rheoli risg yn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Caerus Consulting. Roedd casgliadau'r adolygiad a gyflwynwyd i'r UDA, y Penaethiaid a'r Pwyllgor Gwaith wedi eu hamgáu yn eu cyfanrwydd dan Atodiad 1 yr adroddiad. Gofynnwyd pa bryd y bydd y rheolwyr yn gallu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ei fod yn fodlon gyda statws a gweithrediad rheoli risg yn yr Awdurdod. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog mai'r nod yw cael paratoi a sefydlu cofrestr risg gorfforaethol sylweddol erbyn diwedd Mawrth 2015 ac yn wyneb yr ymateb hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad bryd hynny.	Rheolydd Risg ac Yswiriant/Dirprwy Brif Weithredwr i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2015 ar statws a gweithrediad y gofrestr risg gorfforaethol/matrics wedi eu hadolygu a'r canllawiau risg cysylltiedig.	DBW	30/04/2015	Disgwyl adroddiad i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill	<b>AMBR</b>
20	10/12/2014	Eitem 9	<b>Trefniadau Diwygiedig ar gyfer Atal Twyll</b> – Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor – adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn amlinellu'r newidiadau i'r trefniadau atal twyll a sefydlwyd mewn ymateb i'r newidiadau cenedlaethol yn y modd y mae Twyll Budd-dal Tai yn cael ei nodi, ei ymchwilio iddo a'i erlyn drwy sefydlu'r Gwasanaeth Sengl i Ymchwilio i Dwyll.	Dim angen gweithredu ymhellach	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
21	10/12/2014	Eitem 9	<b>Seminar Pwyllgor Archwilio</b> – Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – ganlyniad y seminar i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ac i nodi unrhyw newidiadau sy'n haeddu sylw o ran cylch gorchwyl a gweithgareddau'r Pwyllgor. Cyfeiriwyd at arferion ym Mhwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd o ran sefydlu gweithgorau sy'n cyfarfod yn y cyfamser rhwng cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor Archwilio ac sy'n canolbwyntio ar achosion penodol yn fanylach nag y gellir ei wneud mewn pwyllgor.	Penderfynwyd: <ul style="list-style-type: none"> <li>Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor y dylid newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.</li> <li>Gofyn i'r Rheolwr Archwilio Mewnol adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.</li> <li>Parhau i gynnal hunanasesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd.</li> </ul>	Rheolwr Archwilio	23/02/2015	Cynhaliwyd Gweithdy Archwilio ac adolygydd ei effeithiolrwydd ar 19-01-15 a mynychwyd y gweithdy hwnnw gan chwe aelod o'r Pwyllgor.	<b>GWYRDD</b>
22	09/02/2015	Eitem 3	<b>Adolygiad 2014/15 o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio</b> - derbyniwyd adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r gweithdy a gynhaliwyd. Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor ac fe'i cymeradwywyd.	Derbyn yr adroddiad, nodi ei gynnwys a chymeradwyo datblygu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad C yn 2015/16 er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau a nodwyd.	Swyddog A151	01/06/2015	Diweddu'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu yn chwarterol yn ystod 2015/16.	<b>AMBR</b>

23	09/02/2015	Eitem 4	<b>Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio</b> – derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys Cylch Gorchwyl drafft yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.	Cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig fel y cafodd ei gyflwyno.	Pwyllgor Gwaith	01/03/2015	Cylch Gorchwyl – i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith	<b>AMBR</b>
24	09/02/2015	Eitem 5	<b>Atal Twyll</b> – Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Swyddog Atal Twyll ar ei waith cychwynnol ers cychwyn yn ei swydd a'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol.	Dim angen gweithredu ymhellach	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
25	23/02/2015	Eitem 3	<b>Cronfa Bensiwn Gwynedd</b> - Gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelod Portffolio gyflwyno adroddiad ar berfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r risgiau cynhenid ar gyfer y Cyngor.	Dim angen gweithredu ymhellach.	D/B	D/B	D/B	<b>GWYRDD</b>
26	23/02/2015	Eitem 5	<b>Y Sefyllfa o ran y Grantiau y manteisir arnynt</b> – Trafododd y Pwyllgor y grantiau a oedd ar gael ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn manteisio arnynt. Cafwyd trafodaeth hefyd ar nifer y grantiau a gafodd eu cymhwyso gan yr Archwiliwr Allanol.	Y Pennaeth Adnoddau'r a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i ddarparu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor ar y grantiau sydd ar gael i'r Awdurdod a sut y mae'r Pwyllgor yn manteisio i'r eithaf arnynt.	Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro	01/04/2015	Darparu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor ar y grantiau sydd ar gael i'r Awdurdod a sut y mae'r Pwyllgor yn manteisio i'r eithaf arnynt.	<b>AMBR</b>
27	23/02/2015	Eitem 6	<b>Dyddiadau Gweithredu Argymhellion Archwilio Mewnol</b> – mynegwyd pryder gan y Pwyllgor ynglŷn â'r dyddiadau gweithredu a nodwyd a thrafodwyd sut y gallai'r Pwyllgor ddylanwadu er mwyn sicrhau gwelliant. Cytunodd y Pwyllgor i nodi ei fwriad i gymryd agwedd gadarnhach tuag at weithredu a sicrhau fod canlyniadau'r adolygiad Archwilio Mewnol yn cael sylw priodol.	Y Pwyllgor Archwilio i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol) i fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio i sôn sut yr oedd y sefyllfa o ran y trefniadau ar gyfer gwerthu, bilio a thalu am ddisel arforol wedi codi a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i'r argymhellion Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio – wedi cysylltu gyda'r PG ar ôl y cyfarfod i roi gwybod iddynt am y cais.	01/04/2015	PG Economaidd i gyflwyno adroddiad yn unol â'r cais.	<b>AMBR</b>

CALENDR Y PWYLLGOR ARCHWILIO – BLWYDDYN DINESIG 2015/16

Atodiad C

	CYFRIFON	ARCHWILIO MEWNOL	ARCHWILIO ALLANOL	RHEOLI TRYSORLYS	RHEOLI RISG	LLYWODRAETHIANT	ARALL
CHWEFROR 2016		Ystyried a mabwysiadu'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn	Adroddiad Cynnydd	Ystyried ac argymhell ar gyfer ei chymeradwyo, y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17		Pwyllgor Archwilio – Cylch Gorchwyl	Adolygiad blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Threfniadau Atal Twyll  Adroddiad Blynyddol – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd
Canol / diwedd EBRILL 2015		Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben  Adolygiad o'r Siarter a'r Protocol Archwilio Mewnol	Ystyried a mabwysiadu'r cynllun ar gyfer y flwyddyn  Adroddiad Cynnydd	Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 4	Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg		Cynllun Hyfforddiant Blynyddol yr Aelodau  Cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor
MAI / MEHEFIN 2015	Datganiad Cyfrifon Drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Adroddiad Gwaith Ch1					
MEHEFIN / GORFFENNAF 2015	Adolygu'r Datganiad Cyfrifon	Adroddiad Gwaith	Adroddiad Gwaith	Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys  Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer Ch1	Cofrestr Risg Gorfforaethol	Ystyried y Datganiad Llywodraethu  Adolygu'r Côd Llywodraethiant  Adroddiad lechyd a Diogelwch Blynyddol	
MEDI 2015	Argymhell i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon (dyddiad cau 30 Medi)	Adroddiad Cynnydd	Derbyn adroddiad ar gyfrifon gan y rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethiant		Cofrestr Risg Gorfforaethol	Diweddariadau ar Lywodraethiant a Sicrwydd  Mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu	Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd
RHAGFYR 2015		Adroddiad Cynnydd	Derbyn y llythyr archwilio blynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben	Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer Ch 2  Sgrwrtineiddio'r adroddiad canol blwyddyn a pharatoi ar	Cofrestr Risg Gorfforaethol		

			<b>Adroddiad Cynnydd</b>	<b>gyfer y flwyddyn nesaf</b>			
--	--	--	--------------------------	-------------------------------	--	--	--





This page is intentionally left blank



## Performance work programme update for Audit Committee 27 April 2015

### Isle of Anglesey County Council

#### Improvement audit and assessment 2015-16

##### **Improvement plan audit**

Audit of discharge of duty to publish an improvement plan.

Timing – Report due in June 2015.

##### **Assessment of performance audit**

Audit of discharge of duty to publish an assessment of performance.

Timing – Report due in November 2015.

##### **Financial management review**

Further work on financial management arrangements following up our 2014-15 review, and looking forward to 2016-17 budget setting and savings proposals. There will also be a focus on reserves position, policy and use of reserves.

Timing – June to September 2015

##### **Governance review**

This work will focus on areas identified as being in need of improvement in the Corporate Assessment report.

Timing – July 2015 to March 2016

##### **Performance management review**

Study across North Wales on benchmarking social services costs against performance. This will include CSSIW involvement.

Timing – April to October 2015

##### **Locally determined review(s)**

Follow-up of aspects identified as being in need of improvement in the Corporate Assessment report.

Timing – July 2015 to March 2016

##### **Annual Improvement Report**

Annual summary and assessment by the Auditor General and other regulators.

Timing – December 2015 to March 2016

## Local Government studies 2015-16

### **The strategic approach of councils to income generation and charging**

Under theme of 'delivering with less', this study will involve an audit of councils' strategic approach to charging, the approval process for setting and reviewing charging and the impact of charging on services and on service users.

### **Council funding of third-sector services**

Also under the theme of 'delivering with less', this study will:

- examine the level of investment in voluntary sector services to benchmark findings against earlier assessments;
- review the measures used to judge the effectiveness of funding in a 'tracer' area; and
- review decision-making processes to determine whether the principles of good governance in funding third sector services are being followed.

### **The effectiveness of local community safety partnerships**

This study examines the effectiveness of community safety partnerships and the impact of the work of partnerships in delivering improvement within their communities.

Timing for all to be confirmed.

## Improvement audit and assessment for 2014-15

### **Corporate Assessment 2014-15**

The assessment is complete and report being drafted with a view to publishing the report in June 2015. Feedback has been provided to SLT, Cabinet and Shadow Cabinet members.

### **Review of Anglesey and Gwynedd Joint Local Service Board**

The review is complete and report is in draft awaiting approval. The LSB received feedback on 31 March. The report will be issued following the end of the election embargo on 8 May 2015.

### **Housing Benefit Assessment**

The review looks at the management, customer focus, decision-making and oversight of Discretionary Housing Payment (DHP) monies and is primarily a desktop analysis of key documentation. The outputs will be a short national summary updating our position statement on DHP in 2013-14 and a short summary for inclusion in the Annual Improvement Report on current performance for each council.

### Local Government studies 2014-15

#### Impact of Welfare Reform on social housing

Published 8 January 2015. The report is available at <https://www.wao.gov.uk/publication/managing-impact-welfare-reform-changes-social-housing-tenants-wales>

#### Safeguarding arrangements

Report to be published May 2015

#### Financial resilience of councils in Wales

Published 2 April 2015. The report is available at <https://www.wao.gov.uk/publication/financial-resilience-councils-wales>

#### Independence of Older People

The fieldwork is due to be completed by March 31 2015 dependent upon outstanding information being provided by councils. The provisional date for publication is July/August 2015.

#### Delivering with less leisure services

The fieldwork is due to be completed by March 31 2015 dependent upon outstanding information being provided by councils. The provisional date for publication is August/September 2015.

### Good practice

In line with the Auditor General's commitment to identify and share good practice, he will continue to host shared learning seminars, identify relevant case studies and focus work on identifying and promoting effective practice. Public bodies receive notification and invites in advance of the events. Forthcoming events can be accessed at WAO's website -

<https://www.wao.gov.uk/forthcoming-events/Shared-Learning-Seminar>

### Other regulators

Joint work with CSSIW across North Wales on benchmarking social services costs against performance.

